



**Hyder mewn
Cymwysterau ac yn
y System
Gymwysterau yng
Nghymru**



Mai 2019

Dyddiad: Mai 2019

Awduron: Philip Wilson, Michael Dodd, Louise Starks ac Einir Burrows

**York Consulting LLP
Smithfield House
92 North Street
LEEDS
LS2 7PN**

Ffôn: 0113 2223545

Ffacs: 0113 2223540

E-bost: philip.wilson@yorkconsulting.co.uk

CYNNWYS

Tudalen

1	CEFNDIR YR ASTUDIAETH A'R DULL YMCHWIL.....	1
2	HYDER YN Y SYSTEM GYMWYSTERAU	7
3	HYDER MEWN CYMWYSTERAU YNG NGHYMRU	20
4	CASGLIADAU	422

1 CEFNDIR YR ASTUDIAETH A'R DULL YMCHWIL

- 1.1 Ym mis Ebrill 2015, comisiynodd Llywodraeth Cymru York Consulting i gynnal pedair blynedd a hanner o astudiaeth i archwilio barn rhanddeiliaid a'u hyder mewn cymwysterau ac yn y system gymwysterau yng Nghymru.
- 1.2 Yr adroddiad hwn yw'r trydydd o dri cham yr astudiaeth. Cynhaliwyd y cam cyntaf rhwng mis Hydref a Rhagfyr 2015, ac adroddiad wedi'i gyhoeddi ym mis Mai 2016¹. Cynhaliwyd yr ail gam rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2017, ac adroddiad wedi'i gyhoeddi ym mis Hydref 2018².
- 1.3 Mae gan sefydliad Cymwysterau Cymru ddau brif nod wedi'u nodi mewn deddfwriaeth, sef:
 - Sicrhau bod cymwysterau a system gymwysterau Cymru yn effeithiol ar gyfer diwallu anghenion rhesymol dysgwyr
 - Hyrwyddo hyder y cyhoedd mewn cymwysterau ac yn system gymwysterau Cymru
- 1.4 Amcanion yr astudiaeth hon oedd:
 - Archwilio lefelau cyfredol o hyder yn y system gymwysterau yng Nghymru ymhlith y rhanddeiliaid
 - Nodi cryfderau allweddol Cymwysterau Cymru o ran hyrwyddo hyder mewn cymwysterau ac yn system gymwysterau Cymru a nodi unrhyw rwystrau a materion sy'n rhwystro effeithiolrwydd
 - Nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella hyder y cyhoedd mewn cymwysterau ac yn y system gymwysterau yng Nghymru
- 1.5 Yn ystod cyfweiliadau, cyfeiriodd cyfranogwyr at ystod eang o faterion. Mae'r adroddiad hwn felly'n cynnwys canfyddiadau sy'n berthnasol i sefydliad Cymwysterau Cymru ac i sefydliadau eraill, gan gynnwys Llywodraeth Cymru a CBAC.

Cefndir

- 1.6 Cafwyd nifer o newidiadau sylweddol yng Nghymru ers cyhoeddi canlyniadau'r Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA) yn 2011, a ddangosodd berfformiad is na'r cyfartaledd yng Nghymru o'i chymharu â gweddill y DU a llawer o wledydd Ewropeaidd.

¹<https://www.qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/confidence-in-qualifications-and-the-qualification-system-in-wales-2017/>

²<https://qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/archwilio-hyder/>

- 1.7 Gwnaethpwyd cyfres o argymhellion allweddol yn adroddiad y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), *Improving Schools in Wales*³, gan gynnwys gosod disgwyliadau uchel, asesu a sicrhau arbenigedd, a gallu athrawon i ddiwallu anghenion dysgu pob dysgwr.
- 1.8 I hybu perfformiad, dechreuodd Llywodraeth Cymru ddiwygiad gwelliant ar raddfa fawr a oedd yn cynnwys:
- adolygu a diwygio cymwysterau
 - sefydlu system gymwysterau newydd
 - cynllunio a threialu cwricwlwm newydd o 3 i 16 oed

Adolygu a diwygio cymwysterau

- 1.9 Yn 2012, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganfyddiadau ac argymhellion adolygiad o gymwysterau i bobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru⁴. Daeth yr adolygiad hwn i'r casgliad fod angen cynllunio system gymwysterau genedlaethol gadarn, nodedig, o ansawdd uchel i bobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru a chefnogi dargyfeiriad rhwng Cymru a rhannau eraill o'r DU, lle'r oedd hyn er budd dysgwyr yng Nghymru.
- 1.10 Roedd diwygio'r cymwysterau⁵ yn cynnwys cyflwyno fesul dipyn gymwysterau TGAU, UG, Safon Uwch a Bagloriaeth Cymru newydd i'w haddysgu gyntaf rhwng mis Medi 2015 a mis Medi 2017. Gweithiodd CBAC gydag ystod eang o randdeiliaid allweddol i ddiweddarau manylebau ac asesiadau cymhwyster ar draws cymwysterau TGAU a Safon Uwch.
- 1.11 Mae'r broses o ddiwygio cymwysterau galwedigaethol yn mynd rhagddi. Mae diwygiadau cymwysterau iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys gofal plant, bron wedi'u cwblhau, a'r gyfres gyntaf o gymwysterau ar fin bod ar gael i'w haddysgu gyntaf ym mlwyddyn academiaidd 2019/20; cyhoeddwyd adroddiad adolygiad sector Cymwysterau Cymru, yn disgrifio'r hyn sydd angen ei newid, ym mis Gorffennaf 2016⁶. Dyfarnwyd contract i gonsortiw City & Guilds a CBAC i gyflenwi'r cymwysterau iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys gofal plant.
- 1.12 Cyhoeddwyd adroddiad Cymwysterau Cymru ar yr adolygiad sector ar gyfer y Diwydiant Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig⁷ ym mis Chwefror 2018, ynghyd

³<http://www.oecd.org/education/Improving-schools-in-Wales.pdf>

⁴ Llywodraeth Cymru (2012) Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14-19 oed yng Nghymru. Adroddiad Terfynol ac Argymhellion.

⁵<https://www.qualificationswales.org/cymraeg/cymwysterau/tgau-a-safon-uwch/diwygio-cymwysterau-cyffredinol/>

⁶ Cymwysterau Cymru (2016) *Sector Review of Qualifications and the Qualification system in Wales including child care and play work*. <https://qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/hsc-report/>

⁷<https://www.qualificationswales.org/cymraeg/cymwysterau/cymwysterau-galwedigaethol/adolygiadau-sector/adeiladu-ar-amgylchedd-adeiledig/>

ag ymgynghoriad ar yr ymateb i'r canfyddiadau. Bwriedir y bydd y swp cyntaf o gymwysterau diwygiedig ar gael i'w haddysgu gyntaf ym mis Medi 2021. Cyhoeddwyd adolygiad o'r cymwysterau yn y sector Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)⁸ ym mis Rhagfyr 2018. Mae adolygiad o gymwysterau yn y sector Peirianeg, Gweithgynhyrchu Uwch ac Ynni yn mynd rhagddo⁹.

System gymwysterau newydd

- 1.13 Argymhellodd yr Adolygiad¹⁰ y dylid sefydlu un corff i reoleiddio, cymeradwyo a sicrhau ansawdd cymwysterau sydd ar gael yng Nghymru (islaw lefel gradd). Yn 2015, sefydlwyd Cymwysterau Cymru gyda'r nod o gyflwyno dull cryfach, mwy tryloyw o reoleiddio cymwysterau a hyrwyddo hyder y cyhoedd mewn cymwysterau ac yn system gymwysterau Cymru.
- 1.14 Mae gan sefydliad Cymwysterau Cymru ddau brif nod wedi'u nodi mewn deddfwriaeth:
- sicrhau bod cymwysterau a system gymwysterau Cymru yn effeithiol ar gyfer diwallu anghenion rhesymol dysgwyr
 - hyrwyddo hyder y cyhoedd mewn cymwysterau ac yn system gymwysterau Cymru
- 1.15 CBAC yw'r prif gorff dyfarnu sy'n cyflenwi'r cymwysterau TGAU a Safon Uwch newydd yng Nghymru oherwydd, yn dilyn gwahoddiad i gyrff dyfarnu eraill ddatblygu cymwysterau TGAU a Safon Uwch diwygiedig yng Nghymru, CBAC oedd yr unig un a ymrwymodd i wneud hynny.

Cwricwlwm ysgol newydd

- 1.16 Derbyniwyd argymhellion o Adolygiad Donaldson, Dyfodol Llwyddiannus¹¹, i ddatblygu cwricwlwm ysgol newydd gan Lywodraeth Cymru, ac mae Cymru'n symud yn raddol at gyflwyno cwricwlwm newydd. Cynigir ei gyflwyno o'r flwyddyn feithrin i Flwyddyn 7 yn 2022, cyn ei gyflwyno'n raddol i Flwyddyn 8 yn 2023 ac yn y blaen nes ei gyflwyno i Flwyddyn 11 yn 2026. Trefnir y cwricwlwm newydd o gwmpas chwe Maes Dysgu a Phrofiad (y Celfyddydau Mynegiannol, y Dyniaethau, Iechyd a Lles, Gwyddoniaeth a Thechnoleg, Mathemateg a Rhifedd, Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu). Bu rhwydwaith o 'ysgolion arloesi' ledled Cymru yn cefnogi datblygiad y cwricwlwm newydd ledled Cymru. Mae Cymwysterau Cymru'n ystyried i ba

⁸<https://www.qualificationswales.org/cymraeg/cymwysterau/cymwysterau-galwedigaethol/adolygiadau-sector/technoleg-gwybodaeth-a-chyfathrebu/>

⁹<https://www.qualificationswales.org/cymraeg/cymwysterau/cymwysterau-galwedigaethol/adolygiadau-sector/engineering-advanced-manufacturing-and-energy/>

¹⁰ Llywodraeth Cymru (2012) Adolygiad o gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14-19 oed yng Nghymru: Adroddiad terfynol ac argymhellion. ISBN 978 0 7504 8267 7

¹¹Yr Athro Graham Donaldson (2015) Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru

raddau y bydd angen diwygio cymwysterau i adlewyrchu'r newidiadau i'r cwricwlwm.

Mater terfynau gradd

- 1.17 Un mater a gododd yn ystod 2018 oedd lle gosodwyd terfynau gradd ar gyfer arholiadau TGAU Iaith Saesneg yn ystod haf 2018.
- 1.18 Roedd Cymwysterau Cymru yn ymwybodol o bryderon a godwyd yn bennaf ymhlith ysgolion yn y gogledd ar ôl y canlyniadau, a bod rhai wedi gweld canlyniadau TGAU Iaith Saesneg yn gostwng. Roedd sefydliad Cymwysterau Cymru am ddeall pam, a gweld a oedd nifer y marciau ar derfynau gradd penodol yn adlewyrchu newid yn y safon a ddisgwylir ar raddau allweddol penodol – yn enwedig gradd C. Cynhaliodd Cymwysterau Cymru adolygiad o'r dystiolaeth¹² a chyhoeddodd adroddiad manwl. Daeth Cymwysterau Cymru i'r casgliad fod penderfyniadau allweddol wedi'u gwneud yn y modd cywir. Yn rheoleiddiwr annibynnol, roedd yn ffyddiog fod y safon ar gyfer 2018 yn gyson â'r flwyddyn flaenorol a bod y terfynau gradd wedi'u gosod yn briodol.
- 1.19 Cododd nifer fechan o ymatebwyr y mater hwn yn rheolaidd. Yn eu barn hwy, rhoddwyd rhai pobl ifanc dan anfantais er bod adroddiad Cymwysterau Cymru, a grybwyllwyd uchod, wedi cadarnhau nad oedd hyn yn wir.

Dull

- 1.20 Cwblhawyd 67 o gyfweiliadau ansoddol wyneb yn wyneb neu dros y ffôn â rhanddeiliaid o 58 o sefydliadau rhwng mis Rhagfyr 2018 a mis Ebrill 2019. Cytunodd Cymwysterau Cymru ar restr fras o rhanddeiliaid. Roedd nifer y rhanddeiliaid unigol yn cyfranogi yn y gwaith maes yn uwch ymhlith ymatebwyr ysgol na chylchoedd blaenorol y gwaith (Tabl 1.1).
- 1.21 Roedd rhanddeiliaid a gafodd gyfweiliad yn cynnwys athrawon ysgol, penaethiaid adran, penaethiaid o ysgolion a gynhelir ac ysgolion annibynnol (gan gynnwys rhai cyfrwng Cymraeg a rhai cyfrwng Saesneg), arweinwyr strategol o'r pedwar consortiwm rhanbarthol i gyd, cyrff dyfarnu (gan gynnwys CBAC a chyrff dyfarnu yn Lloegr), sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch, a chynrychiolwyr sector allweddol. Ymgynghorwyd â rhai cynrychiolwyr cyflogwyr i holi eu barn am ddiwygio, a hynny'n bennaf am gymwysterau galwedigaethol.
- 1.22 Roedd dealltwriaeth cyfranogwyr yr ymchwil yn amrywio o ran materion gweithredol a pholisi cyfredol a newydd sy'n dod i'r amlwg yn y sector addysg. Roedd rhai o'r safbwyntiau a fynegwyd yn ffeithiol anghywir; mae safbwyntiau eraill, er eu bod yn gywir ar y pryd, bellach wedi dyddio oherwydd newidiadau

¹²<https://qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/report-into-the-award-of-gcse-english-language-summer-2018/>

polisi yn y cyfamser. Mae hyn yn enwedig o wir ar gyfer barn mewn perthynas â mesurau perfformiad ysgol, a oedd yn newid ar yr adeg yr oedd ymatebwyr yn rhoi eu barn, ac sydd wedi newid eto ers hynny. Roedd rhai ymatebwyr heb fod yn gwbl ymwybodol o'r newidiadau neu'r ffordd y byddent yn cael eu gweithredu'n ymarferol. Lle mynegwyd anghywirdeb mewn barn, rydym wedi'i gadw yn yr adroddiad i gadw'n driw i'r iaith a ddefnyddiwyd gan ymatebwyr; nid ydym wedi cynnwys esboniadau o bob un camddealltwriaeth.

Tabl 1.1: Grwpiau Rhanddeiliaid y Cyfwelwyd â Hwyr

27 o ymatebwyr o ysgolion a chyrrff cynrychioli ysgolion
10 o ymatebwyr o sefydliadau polisi, gan gynnwys Estyn a 4 consortiwm rhanbarthol
5 ymatebwr o golegau addysg bellach a Cholegau Cymru
6 ymatebwr o ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith a Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru
7 ymatebwr o sefydliadau addysg uwch a chynrychiolwyr sector (gan gynnwys UCAS)
10 ymatebwr o gyrff dyfarnu a chyrrff aelodaeth cyrff dyfarnu
2 ymatebwr o sefydliadau cynrychioli cyflogwyr

1.23 Defnyddiwyd samplu bwriadus¹³ i nodi a dewis y rhai i gynnal cyfweiliad â hwyr.

1.24 Cynlluniwyd y canllaw cyfweld i fod yn agored a gadael i'r rhanddeiliaid drafod unrhyw fater perthnasol i'w rôl mewn perthynas â chymwysterau, y system gymwysterau a sefydliad Cymwysterau Cymru. Roedd yn cynnwys y cwestiynau canlynol.

- Beth yw barn rhanddeiliaid am y cymwysterau yng Nghymru?
 - Pa ffactorau sydd yn galonogol iddynt?
 - Pa ffactorau sy'n eu pryderu?
- Beth yw'r cryfderau allweddol yn y system gymwysterau yng Nghymru?
- A yw rhanddeiliaid yn teimlo y gellid gwella'r system gymwysterau mewn unrhyw fodd?
- Beth yw barn rhanddeiliaid am sefydliad Cymwysterau Cymru?

¹³Sampl fwriadus yw sampl ddi-debygolrwydd a ddewisir ar sail nodweddion poblogaeth ac amcan astudiaeth.

Cydnabyddiaethau

- 1.25 Hoffai'r awduron ddiolch i'r holl randdeiliaid ledled Cymru am gefnogi'r gwaith hwn. Yn benodol, y rhanddeiliaid a roes o'u hamser i ymgysylltu ag ymchwilwyr a rhoi eu barn, ar draws tri cham yr ymchwil rhwng 2015 a 2019.

2 HYDER YN Y SYSTEM GYMWYSTERAU

Cyflwyniad

2.1 Yn yr adran hon, ceir gwybodaeth a roddwyd gan y rhanddeiliaid ynghylch eu hyder yn y system gymwysterau. Cyfeiria'r system gymwysterau yn y cyddestun hwn at gyrff dyfarnu a'r corff rheoleiddio, Cymwysterau Cymru. Siaradodd llawer o'r rhanddeiliaid yn ehangach am bwnc polisi addysg, sut oedd y system gymwysterau yn effeithio ar berfformiad ysgolion, gallu addysgu, a diwygiad parhaus y cwricwlwm. Ymdrinnir â'r materion hyn ar ôl y prif adrannau. Ceir ychydig bach o orgyffwrdd â'r adran ar gymwysterau, lle ymdriniodd yr ymatebwyr â materion ehangach na chymwysterau unigol.

2.2 Cafwyd ymdeimlad cyffredinol ymhlith y rhanddeiliaid fod y diwygiadau a gyflwynwyd yn ddiweddar i gymwysterau TGAU a Safon Uwch bellach wedi bwrw'u gwreiddiau ac yn gweithio yn ôl y bwriad. Fodd bynnag, soniodd nifer o'r ymatebwyr fod y gwreiddio hyn wedi cymryd amser ac wedi dwyn rhai canlyniadau, gan gynnwys baich a phwysau ychwanegol ar athrawon.

"Mae'r system yn 'bwrw gwreiddiau', er ei bod wedi cymryd dwy flynedd lawn i'r athrawon ymgyswrtu â'r system newydd." Pennaeth ysgol uwchradd

2.3 Roedd cefnogaeth i ddull Cymreig unigryw o ddatblygu cymwysterau a'r system gymwysterau. Credwyd bod Cymru wedi dargyfeirio mwyfwy i ffwrdd o Loegr drwy gael mwy o bwerau datganoli.

"Mae system 'gwnaed yng Nghymru' newydd ar y gweill ac rydym yn cefnogi hyn." Ymatebwr polisi

2.4 Nid oedd rhai rhanddeiliaid yn deall yn glir rolau a chyfrifoldebau priodol Cymwysterau Cymru, CBAC, Llywodraeth Cymru a'r consortia rhanbarthol. Teimlwyd bod hwn yn faes i'w wella, a bod angen i sefydliadau allweddol wneud mwy i egluro eu rolau priodol.

"Mae gan bawb ei ran i'w chwarae, y consortia lleol, Cymwysterau Cymru a CBAC, i sicrhau mwy o ddealltwriaeth o'u rolau. Er mwyn i bawb ddeall y berthynas." Ymatebwr polisi

Cymwysterau Cymru

2.5 Ar y cyfan, roedd Cymwysterau Cymru yn cael ei barchu, ac roedd pobl o'r farn ei fod wedi magu enw da cadarn a thryloyw (nodwn faterion fel cyfathrebu, arweinyddiaeth a thryloywder o dan benawdau isod). Ystyriwyd ar y cyfan fod staff Cymwysterau Cymru yn ymatebol, yn fedrus iawn ac yn raenus. Fodd bynnag, roedd rhai beirniadaethau penodol ynghylch ymdrin â'r adolygiad o

derfynau gradd TGAU Iaith Saesneg, annibyniaeth, ac adnoddau a chynnwys Cymraeg.

- 2.6 Roedd y farn gadarnhaol a fynegwyd gan randdeiliaid polisi yn cynnwys:
- Safbwynt cyffredinol fod Cymwysterau Cymru fel sefydliad yn addas at y diben
 - Bod Cymwysterau Cymru wedi sbarduno ffocws cadarnhaol ar gymwysterau yng Nghymru ac wedi dod â mwy o fanylrwydd i gymwysterau
 - Bod Cymwysterau Cymru wedi ystyried goblygiadau'r cwricwlwm ysgol newydd yn gynnar, gydag uchelgais canfyddedig i roi trefniadau ar waith mewn pryd i ymarferwyr
 - Barn gadarnhaol am wefan Cymwysterau yng Nghymru (QiW) a'i defnyddioldeb ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm ysgol
- 2.7 Soniwyd yn benodol am fwy o gyfarfodydd yn digwydd ar 'lefel haen ganol' yn cynnwys consortia rhanbarthol, a ystyriwyd yn gam cadarnhaol ymlaen.

"Mae parodrwydd aruthrol i gydweithio yng Nghymru."
Ymatebwr polisi

- 2.8 Canfuwyd bod angen i sefydliad Cymwysterau Cymru arfer mwy o arolygiaeth o ran CBAC.

"Mae perthynas [rhwng Cymwysterau Cymru a CBAC] sy'n dryloyw a hyd braich yn llwyr yn hanfodol ar gyfer annibyniaeth." Ymatebwr polisi

Cyfathrebu

- 2.9 Roedd y rhanddeiliaid ar y cyfan yn canmol mecanweithiau cyfathrebu, hysbysu ac ymgynghori Cymwysterau Cymru. Er enghraifft:
- Roedd y staff yn gymwynasgar ac ymatebol (ymatebwyr addysg bellach, ysgol)
 - Roedd cyhoeddiadau ar gael drwy'r wefan yn ddefnyddiol, e.e. canllawiau ar gamymddygiad (ymatebwyr addysg bellach, ysgol)
 - Roedd y sefydliad yn gyflym i ymateb i gwestiynau (ymatebwyr ysgol, addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith, cyrff dyfarnu, polisi)
 - Mae e-byst rheolaidd yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol, e.e. am ddiwygio'r cwricwlwm (ymatebwyr polisi, ysgol)
 - Roedd canllawiau a sleidiau PowerPoint a gynhyrchwyd ar y diwygiad cwricwlwm sydd i ddod yn glir ac yn llawn gwybodaeth (ymatebwr ysgol)
 - Mae'r wefan wedi dod yn haws ei llywio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (ymatebwr ysgol)
- 2.10 Teimlai un ymatebwr polisi fod Cymwysterau Cymru yn ceisio rhannu ffeithiau i sicrhau bod gan bobl hyder yn y system a bod hyn yn ddefnyddiol iawn. Roedd

ymatebwr dysgu seiliedig ar waith yn gadarnhaol am ymgysylltiad a deialog Cymwysterau Cymru.

“Yn fy marn i, maen nhw’n ymgynghori’n helaeth a bob amser yn barod i drafod.” Ymatebwr dysgu seiliedig ar waith

- 2.11 Disgrifiodd un ymatebwr addysg bellach y cymorth yn fanwl, gan egluro pan nad oedd cymhwyster yn bodoli ar gronfa ddata QiW o gymwysterau a’u bod yn gallu ei gyflenwi, bod staff Cymwysterau Cymru yn ddefnyddiol yn y broses o ychwanegu hwnnw at y gronfa ddata.
- 2.12 Teimlai rhai ymatebwyr polisi ac ysgol fod hyder yn sefydliad Cymwysterau Cymru wedi’i danseilio yn y gogledd oherwydd ei ymateb i’r adolygiad o derfynau gradd mewn perthynas â TGAU Iaith Saesneg. Canfuwyd bod Cymwysterau Cymru wedi methu â dychwelyd i ganfod tystiolaeth i sicrhau bod myfyrwyr wedi’u trin yn deg. Teimlai’r ymatebwyr fod Cymwysterau Cymru wedi dewis gweithredu er budd y system yn hytrach na’r bobl ifanc hynny. Roedd teimladau am y profiad hwn yn gryf iawn. Nododd ymatebwyr ysgol hefyd mai hwy oedd rheng flaen y system gymwysterau ym marn rhieni a disgyblion, a bod hwn yn gyfnod caled iawn i lawer ledled y gogledd.
- 2.13 Nododd un ymatebwr ysgol rywfaint o ddeialog gadarnhaol ac adeiladol a ddaeth o’r adolygiad o derfynau gradd TGAU Iaith Saesneg yn y gogledd, er gwaethaf y rhwystredigaeth a gafwyd.
- 2.14 Roedd rhwystredigaethau eraill ynghylch cyfathrebu fel a ganlyn:
- Diffyg cysylltiad uniongyrchol neu reolaidd i ddeall datblygiadau cyfredol (ymatebwyr ysgol, Sefydiadau Addysg Uwch yn Lloegr, cyrff dyfarnu)
 - Nid yw’r sector ysgolion annibynnol yn teimlo’n rhan werthfawr o’r system addysg, gyda llai o ddeialog a chyfathrebu am ddiwygiadau system (ymatebwr ysgol)
 - Ymateb araf i ymholiadau (ymatebwr ysgol)
 - Canolbwytio ar Gaerdydd (ymatebwr ysgol)
 - Diffyg hyrwyddo brand Cymru y tu allan i Gymru (ymatebwr dysgu seiliedig ar waith)
- 2.15 Roedd rhai pryderon penodol a godwyd gan un ymatebwr ysgol ynghylch ymagwedd Cymwysterau Cymru at yr iaith Gymraeg, gan gynnwys defnyddio’r Saesneg yn gyntaf mewn gohebiaeth a phenodi prif weithredwyr di-Gymraeg i arwain Cymwysterau Cymru a CBAC.
- 2.16 Teimlai un ymatebwr ysgol nad oedd cronfa ddata QiW bob amser yn gywir nac wedi’i diweddarau o ran gwybodaeth fel nifer yr oriau dysgu dan arweiniad sydd

eu hangen i gwblhau cymwysterau penodol. Roedd y diffyg hyder hwn yng nghronfa ddata QiW yn ei wneud yn amharod i'w defnyddio.

Arweinyddiaeth

- 2.17 Cydnabu rhai rhanddeiliaid rôl arwain Cymwysterau Cymru, a gwnaethant awgrymiadau ar gyfer y ffocws yn y dyfodol. Roedd eraill yn fwy beirniadol o rôl arwain Cymwysterau Cymru.
- 2.18 Amlygodd ymatebwyr polisi rôl bwysig Cymwysterau Cymru a bod atebolrwydd cyhoeddus yn llawer cliriach erbyn hyn nag ydoedd cyn sefydlu Cymwysterau Cymru.
- 2.19 Teimlai un ymatebwr ysgol mai blaenoriaeth Cymwysterau Cymru ddylai fod canolbwyntio ar gael cymwysterau presennol wedi'u derbyn ymhlith *“y rheini sy'n eu defnyddio'n ffon fesur i ddewis myfyrwyr neu gyflogeion”*, h.y. sefydliadau addysg uwch a chyflogwyr, yn hytrach na *“pharhau i gael y cynnyrch yn iawn”*.
- 2.20 Mynegodd rhai ymatebwyr polisi wahaniaeth barn, gan deimlo, ar y naill law, y dylai Cymwysterau Cymru sicrhau bod safonau'n gyson o'r naill flwyddyn i'r llall, gan fynegi rhwystredigaeth at y newidiadau canfyddedig, fel y nodwyd mewn un dyfyniad yn amlygu canfyddiad rhai rhanddeiliaid, sef *“na ddylid codi a gostwng safonau gan ddibynnu ar berfformiad carfannau un flwyddyn”*.
- 2.21 Roedd cynhyrchu deunyddiau addysgu dwyieithog yn arbennig o bwysig i un ymatebwr ysgol, a deimlai y dylai Cymwysterau Cymru gael mwy o ddylanwad ar hyn. Roedd yn siomedig am yr hyn y credai ei fod yn ddiffyg ffocws ar gynnwys Cymraeg.

Tryloywder ac annibyniaeth

- 2.22 Teimlai'r rhan fwyaf o ymatebwyr a soniodd am dryloywder ac annibyniaeth fod Cymwysterau Cymru wedi gwneud gwelliannau o'u cymharu â'r trefniadau blaenorol.

“Rwy'n credu bod Cymwysterau Cymru wedi dod yn bell, a'i fod yn ymdrin â phethau mewn modd agored iawn.” Ymatebwr polisi

“Mae lefel dda o dryloywder ac mae'n amlycach nag ydoedd pan oedd Llywodraeth Cymru'n gyfrifol.” Ymatebwr polisi

- 2.23 Amlygodd un ymatebwr polisi ymateb Cymwysterau Cymru i fater pwysig, gan deimlo ei fod wedi ymdrin ag ef yn dda ac yn dryloyw (er ei bod yn bwysig nodi bod eraill yn fwy beirniadol o'r ffordd yr ymdriniwyd â'r adolygiad o derfynau gradd TGAU Saesneg yng ngogledd Cymru).

“O’i chymharu â’r system flaenorol [cyn Cymwysterau Cymru], mae llawer mwy o onestrwydd a thryloywder yn perthyn i’r system arholi. Un enghraifft o hyn oedd y ffordd yr ymdriniwyd â’r materion gyda phryderon ymgeisio cynnar a therfynau gradd mewn Saesneg. Daethant allan yn rheolaidd a chwrdd â phobl wyneb yn wyneb a siarad ynghylch eu pryderon. Buont yn archwilio’r data am dystiolaeth o bryderon a llunio adroddiad a gyhoeddwyd ar eu gwefan. Mae’r tîm o bobl yn uchel eu parch ac yn wybodus iawn.” Ymatebwr polisi

2.24 Teimlai un ymatebwr ysgol fod Cymwysterau Cymru wedi’i gysylltu’n rhy agos â phenderfyniadau gwleidyddol ac y dylai fod yn fwy annibynnol – er enghraifft, mewn perthynas â gweithredu parhaus polisi Llywodraeth Cymru, o ran Bagloriaeth Cymru.

2.25 Roedd ambell ymatebwr polisi yn fwy beirniadol, gan deimlo bod Cymwysterau Cymru yn rhy agos i CBAC, gan leihau tryloywder.

“Nid yw Cymwysterau Cymru yn ddigon pell i ffwrdd o CBAC, yn yr ystyr ei fod yn eistedd ar bwyllgorau dyfarnu CBAC, er bod hynny fel sylwedydd.”
Ymatebwr polisi

CBAC

2.26 Cydnabu rhanddeiliaid fod CBAC yn sefydliad parchus ac roeddent yn hyderus yng ngallu CBAC i gynllunio cymwysterau cadarn a graenus. Dywedodd mwyafrif y rhanddeiliaid a geisiai gyngor gan CBAC am faterion penodol eu bod yn cael ymateb chwim. Teimlai’r ymatebwyr fod arbenigwyr pwnc CBAC yn raenus iawn.

2.27 Amlygodd y rhanddeiliaid hefyd y sefyllfa anarferol, sef mai CBAC bellach yw’r unig gorff dyfarnu yng Nghymru. Teimlai rhai rhanddeiliaid nad oedd Llywodraeth Cymru wedi cwmpasu’n briodol y risgiau posibl o gael un corff dyfarnu yn unig.

“Pan ofynnodd Llywodraeth Cymru i fyrddau arholi gyflwyno cynnig, gwrthododd yr holl gyrff dyfarnu prif ffrwd gymryd rhan. Roedd hyn oherwydd y taliadau masnachol. Nid oedd yn werth eu hymdrech buddsoddi mewn gwahanol gwricwlwm lle mae nifer y defnyddwyr yr un maint â Birmingham. Felly, yr unig gorff dyfarnu a gynigiodd oedd CBAC ac mae ganddo fonopoli.” Ymatebwr polisi

Gallu ysgolion i arfer dewis ar ran dysgwyr

2.28 Roedd athrawon ac ymatebwyr polisi o’r farn fod athrawon yn cael eu rhwystro oherwydd diffyg dewis corff dyfarnu ar gyfer cymwysterau TGAU a Safon Uwch. Derbyniodd rhai fod hyn yn anochel wrth gael cymwysterau sy’n benodol i Gymru, ond roedd eraill yn anfodlon ar y diffyg dewis.

2.29 Rhoddwyd y rhesymau a'r dadleuon canlynol gan y rhai anffodlon:

- Roedd safle CBAC yn brif gyflenwr cymwysterau TGAU a Safon Uwch yn gysylltiedig, gan randdeiliaid polisi ac ysgol, â hunanfodddhad, a nifer ohonynt yn sôn eu bod wedi cael cymorth o ansawdd uwch gan gyrff dyfarnu blaenorol.
- Amlygodd ymatebwyr ysgol, polisi a chyrrff dyfarnu fod y diffyg dewis i ysgolion (o ran bwrdd arholi) yn golygu na allent ddiwallu anghenion eu disgyblion cystal drwy ddewis y bwrdd mwyaf priodol i'w disgyblion.

“Os oes gennych gystadleuaeth, rhaid i gyrff dyfarnu gynnig rhywbeth gwell, rhaid iddynt gynhyrchu adnoddau ac ati. O'r eiliad yr aethon nhw â'r dewis i ffwrdd, gan ofyn o hyd i ysgolion dalu am y gwasanaeth, roedd yn system â diffygion sylfaenol.” Ymatebwr polisi

2.30 Dywedodd ambell ymatebwr ysgol fod *“digon o ddewis”* a bod *“yr hyn sydd ar gael yn gyffredinol berthnasol a chadarn”*. Amlygwyd ganddynt fod cymwysterau wedi dod ychydig yn fwy caled yn y blynyddoedd diwethaf, a hynny'n bennaf oherwydd newidiadau yn y ffordd y caiff disgyblion eu hasesu, h.y. mwy o bwyslais ar arholi a llai ar waith cwrs. Roeddent yn deall y sail resymegol i'r newidiadau hyn, yn yr ystyr ei bod yn helpu i warchod enw da cymwysterau, ac roeddent yn ystyried bod hwn yn newid yr oedd angen ei wneud.

Cyfathrebu

2.31 Roedd amrywiaeth barn helaeth am gyfathrebu rhwng y rhanddeiliaid ynghylch CBAC. Roedd rhai'n gadarnhaol iawn, ac eraill yn feirniadol dros ben.

2.32 Amlygwyd y materion canlynol gan y rheini a fynegodd farn gadarnhaol:

- Swyddogion pwnc yn barod eu cymwynas ac yn barod i wrando (ymatebwyr ysgol)
- Ymatebion cyflym a chywir i ymholiadau gan staff CBAC (ymatebwyr ysgol a pholisi)
- Ymdrin ag apeliadau – a arweiniodd at well raddau (ymatebwyr ysgol)

2.33 Soniodd dau ymatebwr mai'r agwedd fwyaf cadarnhaol oedd y mynediad y câi staff ysgol at swyddogion pwnc a swyddogion arholiadau.

“Mae rhywun bob amser ar gael ar y ffôn ac maen nhw'n gefnogol iawn; yn y byrddau eraill, rhaid aros yn aml mewn ciw. Rwy'n credu bod gwasanaeth cwsmeriaid CBAC yn llawer gwell.” Ymatebwr ysgol

“Mae ansawdd y cymorth a roir gan fy swyddog pwnc a'r uwch-arholwyr yn dda iawn. Mae'r rhyngweithio sy'n digwydd yn bersonol iawn.” Ymatebwr polisi

- 2.34 Amlygwyd y materion canlynol gan y rheini a fynegodd farn feirniadol am gyfathrebu â CBAC:
- Newidiadau i adborth ac amserlenni datblygiad proffesiynol parhaus gydag adroddiadau arholwyr a briffiau'n cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach nag o'r blaen – mis Tachwedd yn lle mis Medi (ymatebwr ysgol).
 - Nid oedd y gweminarau a ddefnyddiwyd at rai pynciau o'r ansawdd gorau ac nid oeddent yn ymdrin â'r holl gynnwys (ymatebwr ysgol).
 - Ystyriwyd bod rhai swyddogion pwnc yn "ddiymateb"(ymatebwr ysgol).
 - Teimlai rhai ymatebwyr fod byrddau arholi eraill yn fwy rhagweithiol na CBAC (ymatebwr ysgol).
 - Cysondeb arholwyr – soniodd un ymatebwr am y ffordd yr ymatebodd CBAC i'w ysgol a oedd wedi gofyn am adolygiad o farcio. Roedd wedi cael ymateb cyn pen diwrnod, heb unrhyw newid wedi'i wneud. Yn ei farn ef, roedd hyn yn rhoi argraff o ddull "didaro" o adolygu marcio – yn hytrach na rhoi'r argraff fod gan CBAC system effeithiol ac effeithlon ar waith (ymatebwr ysgol).
 - Ystyriwyd bod diwrnodau briffio ôl-arholiad yn fwy effeithiol na'r recordiadau adborth a ddefnyddir bellach gan CBAC (ymatebwr polisi).
 - Nid oedd symud at ddatblygiad proffesiynol parhaus ar-lein mor effeithiol â'r dulliau wyneb yn wyneb blaenorol (ymatebwr ysgol).
- 2.35 Un thema benodol yn y pwyntiau uchod yw effeithiolrwydd mathau digidol o gyfathrebu, fel gweminarau a recordiadau.

Enw da

- 2.36 Ystyriwyd bod arbenigwyr pwnc CBAC o ansawdd uchel. Nododd un ymatebwr ysgol yn benodol fod CBAC wedi cyhoeddi ei adroddiadau arholwyr o fewn diwrnodau o gyhoeddi'r canlyniadau yn 2018, gan ei osod yn unol â chyrrff dyfarnu eraill.
- 2.37 Bu'r ymatebwyr hefyd yn beirniadu CBAC yn debyg i'r modd y beirniadwyd Cymwysterau Cymru, mewn cysylltiad â'r adolygiad o derfynau gradd TGAU Iaith Saesneg. Teimlai un ymatebwr ysgol fod CBAC wedi dioddef niwed i'w enw da o ganlyniad i'r adolygiad hwn. Teimlai y bu CBAC yn amharod i wrando ar yr achos a wnaed gan yr ysgolion, a hynny wedi effeithio ar lawer o ddisgyblion, yn ei farn ef.

Risgiau a phryderon

- 2.38 Roedd y risgiau a'r pryderon allweddol a godwyd gan randdeiliaid mewn perthynas â gwaith CBAC yn ymdrin ag: adnoddau a chymorth, dealltwriaeth am rôl CBAC, a'i allu i ymateb.

- 2.39 Credai rhai rhanddeiliaid polisi fod amrywiaeth gul o adnoddau ar gael i athrawon a rhieni eu prynu ar gyfer cymwysterau CBAC. Teimlwyd bod hyn yn anfantais o gymharu â chyrrff dyfarnu eraill, sy'n cynnig ystodau ehangach o adnoddau. Teimlai un ymatebwr ysgol fod ansawdd y cymorth i athrawon yn wael; amlygodd fod cost rhai o wasanaethau CBAC wedi codi'n sylweddol rhwng 2012/13 a 2018/19.
- 2.40 Ym marn un rhanddeiliad polisi, nid oedd Banc Cwestiynau¹⁴ CBAC yn gweithio'n iawn ac felly nid oedd yn addas at y diben. Roedd hyn mewn gwrthgyferbyniad â chronfeydd data eraill fel TestBase¹⁵ neu ExamPro¹⁶, y credwyd eu bod yn gweithio'n dda.
- 2.41 Er canmolwyd CBAC am ei ymatebolrwydd (fel y crybwyllwyd yn flaenorol), roedd rhai'n sôn am gyfyngiadau gallu – er enghraifft, mewn perthynas â chynhyrchu deunyddiau cymhwyster cyfrwng Cymraeg. Teimlai un ymatebwr ysgol fod prinder staff a bod hynny'n effeithio ar allu CBAC i ymateb i ymholiadau. Roedd rhai o'r farn y byddai'n rhaid i Lywodraeth Cymru 'gymorthdal' CBAC ar gyfer rhai pynciau oherwydd prinder galw. Credwyd hefyd fod y prinder galw yn arwain at godi'r ffioedd i ysgolion.

Materion eraill a godwyd mewn perthynas â'r system gymwysterau

- 2.42 Mae'r pwyntiau canlynol a wnaed gan ymatebwyr yn helpu i ddeall sut roedd y system gymwysterau'n cael ei hystyried ochr yn ochr â datblygiadau polisi ehangach.

Materion polisi

- 2.43 Roedd ymdeimlad cyffredinol o rwystredigaeth ymhlith rhai ymatebwyr ysgol oherwydd y bu polisi'n destun newid parhaus mewn perthynas â'r system gymwysterau.

"...mae newidiadau polisi olynol gan Lywodraeth Cymru wedi cael effaith niweidiol ar ysgolion a'r proffesiwn addysgu ... mae'n anodd darllen cyfeiriad polisi am eu bod yn newid pethau byth a hefyd." Ymatebwr ysgol

- 2.44 Un canfyddiad ymhlith ymatebwyr ysgol oedd bod tuedd ymhlith llunwyr polisi i weld popeth fel blaenoriaeth, a hynny'n gorlwytho ysgolion a disgyblion. Rhybuddiodd un ymatebwr polisi rhag peidio â llawn werthfawrogi maint y dasg, sef diwygio parhaus cymwysterau a chwricwlwm, er ei fod yn teimlo bod budd amser gan sefydliad Cymwysterau Cymru a chyrrff dyfarnu. Pwysleisiwyd ganddo y bydd y cymwysterau newydd a'u trefniadau asesu yn dod i fodolaeth ymhen ychydig flynyddoedd byr ar ôl newidiadau 2015-17 ac y gallai athrawon deimlo bod rhagor o newidiadau eto yn eu llethu. Amlygwyd bod angen ystyried

¹⁴https://www.cbac.co.uk/banc-cwestiynau?language_id=2

¹⁵<https://www.testbase.co.uk/>

¹⁶<https://www.exampro.co.uk/>

yn ofalus hyfforddiant athrawon a datblygiad adnoddau dwyieithog ymhell cyn lansio'r cwricwlwm a'r cymwysterau newydd.

- 2.45 Yn gysylltiedig â hyn, roedd teimlad ymhlith rhanddeiliaid ysgol fod tensiynau'n codi'n anochel o geisio *“ffitio'r chwart polisi ym mhot peint yr amserlen”*. Yn y bôn, er byddai ysgolion wrth eu bodd yn cynnig popeth, mae'n rhaid iddynt flaenoriaethu pynciau craidd (y cânt eu mesur yn seiliedig arnynt) o fewn yr amserlen o ryw 25 o wersi awr yr wythnos.

“Diniwed yw dychmygu y bydd ysgolion yn peryglu eu sgoriau pwyntiau wedi'u capio er mwyn cynnig cwricwlwm a allai ddiwallu anghenion rhai disgyblion yn well.” Ymatebwr ysgol

- 2.46 Roedd rhai pryderon penodol am gydraddoldeb y Gymraeg, a chodwyd materion amrywiol, gan holi a allai myfyrwyr gwblhau cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg ar yr un gwastad â'r Saesneg.
- 2.47 Teimlai'r rheini a hoffai weld mwy o gydraddoldeb ar draws yr ystod allu fod myfyrwyr llai galluog yn cael eu rhoi dan anfantais gan newidiadau diweddar mewn cynllunio cymwysterau a pholisi (cododd y pwynt hwn yn fynych, ac fe'i disgrifir yn fanylach yn yr adran ar gymwysterau).
- 2.48 Cododd ysgolion a cholegau bryderon am bolisiau addysg uwch ehangach, sef cynigion diamod a'r effaith y gall hyn ei chael ar berfformiad myfyrwyr. Roedd hyn yn llawer ehangach na chyfrifoldeb Cymwysterau Cymru ac yn cael ei drafod ar hyn o bryd ar lefel llywodraeth y DU.
- 2.49 Nododd ymatebwyr her cael cydbwysedd priodol rhwng cymwysterau sy'n ddigon heriol i'r myfyrwyr mwyaf galluog a bod yn hygyrch i'r amrywiaeth lawn o ddysgwyr. Fodd bynnag, teimlai llawer o'r ymatebwyr fod y safonau uwch wedi'u hymgorffori yn y cymwysterau diwygiedig yn rhy galed.
- 2.50 Nid oedd y rhan fwyaf o randdeiliaid wedi deall y broses ddiwygio'n dda; roedd dealltwriaeth yn amrywio ymhlith rhanddeiliaid polisi, addysg bellach ac ysgolion. Credai rhai fod cyflymder y diwygio yn cyfyngu ar yr amser sydd ar gael i ysgolion ac athrawon addasu. Credai eraill fod y diwygiadau wedi cymryd gormod o amser. Teimlai'r ddau grŵp mai'r canlyniad oedd gosod baich trwm ar athrawon. Dywedodd un rhanddeiliad polisi fod hwn yn dechrau tawelu ond amlygodd y byddai'n ailddechrau mewn ymateb i ddiwygio'r cwricwlwm.
- 2.51 O ran y cymwysterau newydd, mynegodd rhai ymatebwyr bryderon am y cydbwysedd rhwng pynciau craidd a di-graidd, a rhwystredigaethau fod rhai manylebau TGAU yn *“eithaf llawn”* o ran eu cynnwys.
- 2.52 Yn benodol, teimlai ambell ymatebwr polisi a chorff dyfarnu fod arweinwyr ysgol wedi cynyddu'r amser ar gyfer y cymwysterau pwnc craidd newydd a bod hyn wedi arwain at gulhau'r amrywiaeth o bynciau mewn llawer o ysgolion.

Dywedodd un pennaeth fod rhai plant yn ei ysgol yn cael eu hamddifadu o addysg fwy llydan, am fod pynciau fel cerddoriaeth ac ieithoedd yn cael eu 'gwthio o'u lle'.

- 2.53 Un effaith berthynol arall, a welwyd gan rai rhanddeiliaid polisi, oedd amharodrwydd athrawon pwnc i ryddhau disgyblion i gwrdd â chynghorwyr gyrfaoedd neu gyfranogi mewn gweithgareddau allgyrsiol, gan gynnwys profiad gwaith.
- 2.54 Teimlai rhanddeiliaid cyflogwyr a pholisi eraill fod angen rhoi mwy o bwyslais ar baratoi pobl ifanc ar gyfer y byd gwaith, a hynny drwy ddatblygu eu sgiliau cyflogadwyedd a rhoi'r cyfle iddynt gymryd rhan mewn profiadau cysylltiedig â gwaith tra'u bod yn yr ysgol o hyd.

"Mae cyfangu amser, a neilltuir ar gyfer gweithgarwch cysylltiedig â gyrfaoedd, yn y cwricwlwm dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf wedi bod yn gam yn ôl ac mae angen unioni hyn." Ymatebwr polisi

Effaith PISA ar asesu

- 2.55 Yn ôl ambell ymatebwr polisi, roedd mwyafrif yr ysgolion wedi addasu'n briodol i'w haddysgu mewn ymateb i'r cwestiynau 'math PISA' a welir yn y manylebau TGAU newydd.
- 2.56 Roedd rhai ymatebwyr ysgol yn hoff o'r gwestiynau datrys problemau math PISA mewn cymwysterau TGAU, a groesawyd ar y cyfan, gan nodi eu bod "yn gwneud i'r plant feddwl a datblygu eu sgiliau yn ogystal â'u gwybodaeth".
- 2.57 Dywedodd un ymatebwr ysgol arall fod dylanwad PISA yn amlwg ar y diwygiadau mewn Saesneg.

"Roedd yn llai rhagfynegadwy o ran mathau o gwestiynau, sy'n beth da, ac roedd yn ymwneud yn gliriach â chymhwyso sgiliau yn hytrach na pharatoi ar gyfer mathau o gwestiwn." Ymatebwr ysgol

- 2.58 Hefyd, roedd rhai rhanddeiliaid yn cymeradwyo'r pwyslais ar iaith a llafaredd. Fodd bynnag, nodwyd ganddynt fod hyn yn creu problemau ymarferol i ysgolion, fel rhoi grŵp mawr o ddisgyblion drwy arholiad llafar wedi'i recordio o fewn ffenestr amser benodol.
- 2.59 Nodwyd hyn hefyd mewn perthynas â phynciau eraill, fel gwyddoniaeth, lle amlygodd athrawon fod mwy o amser darllen wedi'i gynnwys yn yr arholiad, a hynny'n cael ei ystyried yn fuddiol.

"Rydym yn bendant yn gweld effeithiau'r ffocws ar safleoedd PISA – er enghraifft, mewn gwyddoniaeth, mae mwy o ffocws ar lythrennedd gwyddonol yn hytrach nag atgofio ... [er] ei bod yn anoddach addysgu'r

ffordd honno ac mae ychwanegu at bapurau arholiad yn eu gwneud yn fwy amleiriog.” Athro ysgol

- 2.60 Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr ysgol yn beirniadu'r hyn a oedd, yn eu barn hwy, yn system gymwysterau a pholisi wedi'i sbarduno gan symud Cymru i fyny'r safleoedd PISA. Ni themlai'r ymatebwyr hyn y dylai hyn fod yn flaenoriaeth i athrawon.

Perfformiad ysgol

- 2.61 Codwyd pryderon gan ymatebwyr polisi a staff ysgol fod y system gymwysterau gyfredol (gyda'i chynnwys cynyddol, arholiadau caletach a chwestiynau o fath PISA) yn annog athrawon i *'addysgu i'r prawf'* ar draul cwricwlwm ehangach.

“Bydd athrawon yn gwneud i ddisgyblion ymarfer mewn modd sy'n eu paratoi at arholiadau heb ddatblygu eu dealltwriaeth ehangach o reidrwydd na'u helpu i fod yn ddysgwyr annibynnol, medrus.” Ymatebwr polisi

- 2.62 Er bod hyn fel petai'n groes i'r pwyntiau a wnaed yn gynharach – lle dywedodd athrawon eu bod yn croesawu'r cwestiynau math PISA a'r cynnwys cynyddol ond cyn dweud yma ei bod yn anoddach addysgu hyn – roedd hyn yn cynrychioli'n gywir farn gwahanol randdeiliaid.

- 2.63 Teimlai rhai ymatebwyr ysgol yn ansicr o ran sut oedd Llywodraeth Cymru yn bwriadu mesur perfformiad ysgolion, sydd, fel y nodwyd uchod, yn gallu arwain at ganlyniadau anfwriadol ar gyfer addysgu, yn benodol mewn pynciau di-graidd.

“Mae'n debyg imi fod ychydig o gilio wedi bod mewn perthynas â'r mesur naw pwynt wedi'i gapio, y deallwn y byddai'r unig/prif fesur o berfformiad, gyda'r hen ddangosydd perfformiad allweddol Lefel 2 plws fel petai'n cael blaenoriaeth. Mae'r amwysedd a achosir gan hyn yn cael ei waethygu gan y ffaith fod Estyn yn parhau i adrodd mewn perthynas â'r mesurau 8 wedi'u capio.”

- 2.64 Dywedodd un ymatebwr ysgol fod *“ysgolion yn chwarae'r system er mwyn i'w perfformiad ymddangos yn dda, a hynny weithiau ar draul yr hyn sydd orau i ddisgyblion efallai”*. Eglurodd ymhellach y bu ei ysgol yn edrych ar yr effaith bosibl y câi dilyn cymwysterau mwy galwedigaethol ar berfformiad yr ysgol o ran y Sgôr 9 Pwynt wedi'i Chapio.

- 2.65 Teimlai ymatebwyr eraill fod trefniadau perfformiad ysgol yn gyffredinol yn iawn ond bod angen eu mireinio ymhellach. Serch hynny, pwysleisiodd un ymatebwr polisi fod angen i ddangosyddion perfformiad gyfateb i'r cwricwlwm newydd, y teimlai y gall fod yn her bellach, o ystyried natur pedwar diben y cwricwlwm a'i Feysydd Dysgu a Phrofiad. Pwysleisiodd fod

angen cyflwyno dangosyddion perfformiad mewn modd synhwyrol, gan ystyried yn ofalus ganlyniadau anfwriadol posibl eu mabwysiadu.

Capasiti a gallu

- 2.66 Codwyd nifer o faterion am allu a chapasiti yn y system addysg a dysgu ac effaith y diwygiadau. Ymdrinnir â rhai o'r materion hyn yn fanylach yn yr adran ar gymwysterau isod.
- Mae angen i'r hyfforddiant i athrawon newydd gymhwyso ddal i fyny â'r newidiadau i'r cymwysterau.
 - Teimlwyd bod datblygiad proffesiynol parhaus i athrawon yn annigonol, yn benodol mewn addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith. Teimlai un ymatebwr y dylid cynnwys nifer lleiaf o oriau datblygiad proffesiynol parhaus mewn contractau cyflogaeth. Teimlwyd bod hyn yn benodol o bwysig o ystyried y cwricwlwm newydd.
 - Symudiad trawsffiniol o athrawon yn dod i mewn i Gymru. Ar hyn o bryd, gall athrawon ysgol sydd â statws athro cymwysedig (SAC) yng Nghymru a Lloegr symud ar draws ffiniau a gallu gweithio. Fodd bynnag, roedd rhai pryderon y gallai dargyfeirio pellach rhwng y cenhedloedd (o ran llwybrau asesu mewn SAC) ansefydlogi'r cydbwysedd hwn.
 - Credai nifer o ymatebwyr ysgol fod newid yn *"gyson"*, a daeth un i'r casgliad fod hyn yn *"gwneud bywyd yn anodd i sefydliad Cymwysterau Cymru yn ogystal ag i ysgolion"*.

Y cwricwlwm newydd

- 2.67 Roedd ymatebwyr yn ymwybodol o gynllun y cwricwlwm newydd i Gymru. Roedd rhai â meddwl agored ac eraill yn ymboeni am newid a diwygio parhaus, gan deimlo y byddent yn rhoi pwysau ar ysgolion, colegau a darparwyr dysgu seiliedig ar waith.
- 2.68 Pwysleisiodd un ymatebwr polisi bwysigrwydd cynnwys pob rhanddeiliad mewn datblygu'r cwricwlwm newydd, i sicrhau y bydd canlyniadau'r broses ddatblygu yn iawn.
- 2.69 Teimlai rhai ysgolion fod ganddynt ddealltwriaeth eang, dda y byddai'r ffocws i gymwysterau ar sail cwricwlwm diwygiedig yn ymwneud yn gynyddol â sgiliau, gyda gwahanol fathau o ddysgu ac asesu. Roedd rhai'n ymwybodol o'r chwe maes dysgu a phrofiad yn y cwricwlwm newydd.
- 2.70 Roedd rhai ymatebwyr yn gofalu rhag mynegi barn nes iddynt weld canlyniad y diwygiadau o ran y cwricwlwm a'r cymwysterau newydd. Teimlai rhai ymatebwyr ysgol *"ei fod yn arbrawf anferth"*, gan gredu y byddai rhieni yn gwrthwynebu newid.

- 2.71 Roedd ymatebwyr ysgol eraill yn poeni sut bydd y cwricwlwm newydd sy'n seiliedig ar feysydd dysgu bras yn rhoi'r wybodaeth, y sgiliau a'r cymwysterau sydd eu hangen ar ddysgwyr i symud ymlaen i gyrsiau gradd sy'n canolbwyntio ar bwnc penodol. Teimlai ymatebwyr ysgol eraill nad oedd digon o eglurder am gwricwlwm y dyfodol.
- 2.72 Teimlai un ymatebwr ysgol fod Cymwysterau Cymru'n chwarae rhan glir mewn rheoleiddio datblygiad trefniadau asesu mewn ymateb i'r cwricwlwm newydd. Cydnabu un ymatebwr polisi fod Cymwysterau Cymru eisoes wedi dechrau blaengynllunio i roi trefniadau newydd ar waith mewn da bryd.

Awgrymiadau ar gyfer gwelliannau

- 2.73 Bu'r ymatebwyr yn trafod rhai o'r beirniadaethau a ddisgrifiwyd yn y bennod uchod ac roedd ganddynt rai awgrymiadau am y ffordd ymlaen:
- Roedd yn anodd weithiau i bobl gymryd rhan mewn ymgynghoriadau am newidiadau i gymwysterau, yn enwedig athrawon, am eu bod yn gwneud pethau mwy dybryd, felly nid oeddent bob amser yn cymryd rhan. Cydnabu ymatebwyr cyrff dyfarnu mai un o'r gwersi i'w dysgu oedd ei bod yn bwysig cael athrawon i gymryd rhan.
 - Teimlwyd nad oedd digon o ddealltwriaeth o'r broses ddiwygio (ymhlith rhanddeiliaid), sut oedd yn cael ei gweithredu, ac adolygiadau blynyddol parhaus. Teimlwyd felly fod angen ymgymryd â phrosiect cyfathrebu i roi gwybod i bobl am gylch y broses o'r datblygu i'r gweithredu hyd at gyflenwi sefydlog a rolau'r chwaraewyr allweddol.
 - Canfuwyd bod angen parhaus i gyfathrebu rôl chwaraewyr allweddol yn y system gymwysterau fel Cymwysterau Cymru, Llywodraeth Cymru, CBAC a chonsortia rhanbarthol.
 - Credwyd bod angen deall yn well sut mae CBAC yn gwneud addasiadau wrth ddyfarnu cymwysterau TGAU a Safon Uwch drwy osod terfynau symudol graddau. Teimlai ymatebwyr cyrff dyfarnu na ddylid ystyried bod y pryderon diweddar ynghylch TGAU Saesneg yn rhywbeth newydd, am eu bod yn berthynol i weithdrefnau sydd wedi'u hen sefydlu.
- 2.74 Teimlai'r ymatebwyr fod gwell strategaeth gyfathrebu'n ofynnol i fynd i'r afael â'r materion uchod. Teimlai rhai rhanddeiliaid hefyd fod angen i hyn gynnwys rhieni, yr ystyriwyd eu bod yn cael eu hepgor o'r prosesau ar hyn o bryd. Pwysleisiodd yr ymatebwyr fod camddealltwriaeth wedi creu dryswch – er enghraifft, y gred mai rôl CBAC oedd darparu llyfrau ac adnoddau addysgu a dysgu, er nad oedd yn gyhoeddwr yr adnoddau hyn.

3 HYDER MEWN CYMWYSTERAU YNG NGHYMRU

Cyflwyniad

- 3.1 Cadarnhaodd llawer o randdeiliaid eu bod yn ystyried yn gyffredinol fod cymwysterau yng Nghymru 'yn addas at y diben'.
- 3.2 Cafwyd cefnogaeth gyffredinol i'r newidiadau a wnaed i gymwysterau TGAU a Safon Uwch dros y tair blynedd ddiwethaf o ran 'codi'r safon' yn y pynciau craidd ac ailgydbwysu'r pwyslais rhwng gwaith cwrs ac arholiadau. Roedd lefelau uchel o hyder mewn cymwysterau TGAU a Safon Uwch fel ei gilydd, er bod rhai materion penodol yn peri gofid i randdeiliaid.
- 3.3 Disgrifia'r adran hon farn y rhanddeiliaid am gymwysterau yng Nghymru, gan ymdrin â'r canlynol:
 - Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd (TGAU)
 - Cymwysterau Safon Uwch (Safon UG a Safon Uwch)
 - Adnoddau ar gyfer cymwysterau TGAU a Safon Uwch
 - Bagloriaeth Cymru / Tystysgrif Her Sgiliau (SCC)
 - Cymwysterau galwedigaethol

Cymwysterau TGAU

- 3.4 Roedd cymwysterau TGAU diwygiedig yn cael eu gwreiddio'n effeithiol yn y cwricwlwm cyfredol, yn ôl y rhan fwyaf o ymatebwyr. Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r manylrwydd ychwanegol a gyflwynwyd drwy ddiwygio'r cymwysterau.
- 3.5 Teimlai llawer o ymatebwyr fod y manylebau cymhwyster "*yn weddol briodol*", er yr ystyriwyd bod rhai yn ymylu ar fod yn "*rhy llawn*" yn yr ystyr ei bod yn heriol ymdrin â'r maes llafur cyfan.
- 3.6 Er y dargyfeirio o ran strwythur a chynnwys, ystyriwyd o hyd fod cymwysterau TGAU yng Nghymru yn gyfartal â'r rheini yn Lloegr. Hefyd, ystyriwyd bod cadw'r system raddio A* i G yng Nghymru yn gam cadarnhaol am fod y graddau hyn wedi'u deall yn dda. Credwyd nad oedd y system raddio 9 i 1 a fabwysiadwyd yn Lloegr wedi ennill ei phlwyf eto.
- 3.7 Credwyd y byddai disgyblion llai academiaidd, yn benodol, yn cael cymwysterau TGAU a arholir yn fwy heriol ac y gallai absenoldeb opsiynau galwedigaethol amgen, am nad yw'r cymwysterau hyn yn cyfrif tuag at fesurau perfformiad ysgol (er enghraifft, BTEC Gwyddoniaeth), roi rhai dysgwyr dan anfantais.
- 3.8 Trafodwn faterion TGAU eraill a materion penodol i bwnc o dan y penawdau canlynol:

- Ymgeisio cynnar
- Asesu ac arholiadau
- Hyder athrawon a'u parodrwydd i addysgu i'r manylebau newydd
- Y cwricwlwm ysgol newydd
- Materion pwnc: Gwyddoniaeth, Saesneg, Cymraeg Iaith, Llenyddiaeth Gymraeg a Mathemateg

Ymgeisio cynnar

- 3.9 Cafwyd sylwadau helaeth am fanteision ac anfanteision arferion ymgeisio cynnar.
- 3.10 Bu llawer o ysgolion yn mabwysiadu'r arfer o gyflwyno disgyblion i sefyll arholiadau TGAU ym Mlwyddyn 10. Dadleuwyd mai manteision gwneud hyn oedd:
- Llai o faich ar rai disgyblion drwy "gael rhai pynciau o'r ffordd yn gynnar"
 - Rhoi profiad i'r disgyblion o sefyll arholiadau allanol
 - Galluogi disgyblion i ailsefyll arholiadau ym Mlwyddyn 11 os credir y gallent wella eu graddau drwy wneud hynny, gan "*roi mwy nag un cyfle iddynt*"
- 3.11 Yn yr un modd, dadleuwyd bod anfanteision i ymgeisio cynnar:
- Efallai na fydd disgyblion yn ddigon aeddfed i sefyll arholiadau ym Mlwyddyn 10
 - Nid yw rhai ysgolion yn ailgofrestru disgyblion am arholiadau os bydd disgyblion yn cyflawni'r graddau a ragfynegwyd iddynt, gan eu hamddifadu felly o'r cyfle i wella ar eu graddau terfynol
 - Gall disgyblion orflino wrth wynebu cylchoedd olynol o arholiadau
 - Mae ymgeisio lluosog yn ddruod i ysgolion
- 3.12 Yn adolygiad 2017 Cymwysterau Cymru o ymgeisio cynnar ac ymgeisio lluosog, cwestiynwyd priodoldeb yr arfer hwn¹⁷ ac arweiniodd hyn at gyhoeddiad y Gweinidog Addysg yn 2017, sef, o 2019, dim ond canlyniadau'r tro cyntaf i ddisgyblion sefyll arholiadau TGAU a fyddai'n cyfrannu tuag at fesurau perfformiad ysgol. Er nad yw hyn yn atal ysgolion rhag cyflwyno disgyblion yn gynnar, e.e. lle gallai hynny fod er lles gorau'r disgyblion, y bwriad oedd terfynu ymgeisio cynnar fel arfer helaeth.
- 3.13 Teimlwyd rhywfaint o ddryswch ymhlith yr ymatebwyr mewn perthynas â chyngor Llywodraeth Cymru ar ymgeisio'n gynnar am gymwysterau TGAU yn

¹⁷<https://qualificationswales.org/media/2826/arferion-cofrestru-cynnar-a-lluosog-ar-gyfer-arholiadau-tgau-yng-nghymru-2017.pdf>

2017/18. Credwyd bod hyn yn arwain at anghysondeb ar draws y rhanbarthau, a arweiniodd at rai rhwystredigaethau, yn benodol ymhlith ymatebwyr ysgol a pholisi (roedd hyn hefyd yn rhan o'r mater a godwyd yn y gogledd ynghylch TGAU Saesneg).

Asesu ac arholiadau

- 3.14 Codwyd ychydig o faterion gan niferoedd bychain o ymatebwyr mewn perthynas ag asesu ac arholiadau yn ymdrin â dangosyddion perfformiad ysgol, amserlennu arholiadau, dull asesu, ac ymgeisio mewn colegau addysg bellach.
- 3.15 Cafwyd gwahaniaeth barn am y ffaith fod Llywodraeth Cymru'n annog yn erbyn ymgeisio lluosog, drwy seilio mesurau perfformiad ysgol ar y graddau cyntaf a gyflawnir mewn pwnc. Roedd rhai ymatebwyr yn cefnogi hyn, ac eraill yn teimlo ei bod yn rhesymol i fyfyrwyr a wnaeth wallau annodweddiadol ailsefyll o leiaf unwaith heb fod hyn yn effeithio ar y radd a gyfrifir tuag at fesurau perfformiad ysgol.
- 3.16 Roedd amserlennu llawer o arholiadau dros gyfnod byr yn heriol i un ymatebwr ysgol. Teimlai y gallai'r arholiadau mathemateg fod wedi'u grwpio dros gyfnod byrrach i leihau'r pwysau ar ysgolion a disgyblion, yn hytrach na'u lledu yn ystod cyfnod arholiadau'r haf.
- 3.17 Soniodd nifer o ymatebwyr ysgol eu bod wedi sylwi yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf fod arholiadau'n cynnwys mwy o gwestiynau ymateb estynedig. Roeddent yn teimlo bod hyn yn cyflwyno her benodol i ddisgyblion â sgiliau darllen a deall gwannach. Ym marn eraill, roedd hyn yn dystiolaeth o fwy o fanylrydd a her yn y broses asesu.
- 3.18 Dywedodd ymatebwyr addysg bellach y cafwyd cynnydd sylweddol yn nifer y dysgwyr a ymrestrwyd mewn colegau addysg bellach yn gorfod ailsefyll TGAU Saesneg a Mathemateg. Credwyd bod hyn yn rhoi pwysau ychwanegol ar y sector addysg bellach i gefnogi myfyrwyr felly i gyflawni'r cymwysterau hyn.

Cwricwlwm ysgol newydd

- 3.19 Roedd rhanddeiliaid am weld i ba raddau y bydd argymhellion Dyfodol Llwyddiannus yn cael eu gweithredu. Roedd y materion penodol a godwyd yn cynnwys:
 - I ba raddau y bydd y cwricwlwm newydd yn cael ei gysoni â'r fframwaith TGAU cymharol newydd [ymatebwyr polisi ac ysgol]
 - Er bod amser wedi'i neilltuo ar gyfer gweithredu, roedd pryder na fyddai'r amser hwn efallai'n ddigonol [ymatebwyr polisi ac ysgol]

- 3.20 O wahanol safbwynt, roedd rhai ymatebwyr polisi o'r farn, am fod cymwysterau TGAU wedi cael eu diwygio'n sylweddol yn ddiweddar, nad oedd yr ymateb efallai'n ddigon radicalaidd.

Hyder athrawon a'u parodrwydd i addysgu i'r cymwysterau newydd

- 3.21 Ar y cyfan, roedd ymatebwyr polisi o'r farn fod athrawon yn fwyfwy hyderus am addysgu'r cynnwys sy'n ofynnol ar gyfer cymwysterau TGAU ond bod llai o hyder yn y ffordd yr oedd cymwysterau'n cael eu harholi. Teimlai rhai ymatebwyr polisi fod arweiniad mwy amserol i athrawon yn ofynnol.
- 3.22 Teimlai rhai ymatebwyr ysgol nad oedd digon wedi'i wneud i hysbysu a pharatoi athrawon ar gyfer cyflwyno'r cymwysterau newydd. Roeddent yn teimlo bod angen mwy o ffocws ar ddatblygu hyder addysgu ac addysgeg.

“Ni chynigiwyd digon o gyfleoedd datblygiad proffesiynol, ac ni wnaethpwyd manylebau pwnc ar gael mewn digon o bryd i'r ymarferwyr fynd i'r afael yn iawn â'r hyn a ddisgwyliwyd cyn addysgu disgyblion y byddai disgwyl iddynt sefyll yr arholiadau ar eu newydd wedd.” Ymatebwr ysgol

- 3.23 Roedd llawer o'r ansicrwydd a grybwyllwyd yn ymwneud â diffyg hyder athrawon o ran y disgwyliadau asesu. Roedd pryderon ynghylch anghysondeb mewn iaith a mathau o gwestiwn a allai gael eu dehongli'n wahanol gan fyfyrwyr.
- 3.24 Mae consortia rhanbarthol wedi cydnabod diffyg hyder yn rhai o'u hathrawon ac roeddent yn gweithio'n galed i wella ansawdd yr addysgu drwy leihau ffocws ar addysgu i basio arholiadau.

“Mae angen i'n hathrawon ddeall, os byddant yn addysgu gwersi o ansawdd ac yn addysgu myfyrwyr i fod â meddwl chwilfrydig, y bydd y gweddill yn cwmpo i'w le.” Ymatebwr polisi

- 3.25 Teimlai un ymatebwr addysg bellach fod angen i'r hyfforddiant i athrawon newydd gymhwyso ddal i fyny â newidiadau i'r cymwysterau.
- 3.26 Nododd un ymatebwr polisi fod Llywodraeth Cymru wedi ariannu gwasanaethau cymorth rhanbarthol i gefnogi ysgolion yn ystod y pontio i'r cymwysterau newydd. Fodd bynnag, teimlai er gwaethaf hyn ei bod yn her o hyd ymgysylltu â rhai ymarferwyr. Teimlai ymatebwyr polisi eraill fod “*angen enfawr yn parhau ynghylch ansawdd addysgu mewn addysg uwchradd*”, er gwaethaf blaenoriaethu ansawdd addysgu a magu rhwydweithiau i gefnogi ei gilydd.

“Mae CBAC wedi ceisio ymateb i hyn drwy ddod ag athrawon a chonsortia rhanbarthol ynghyd a chael dull rhanbarthol o ddatblygu adnoddau. Fodd

bynnag, nid ariannwyd consortia rhanbarthol ac athrawon i wneud hyn ac roeddent yn teimlo na allent ymateb.” Ymatebwr polisi

Gwyddoniaeth

- 3.27 Cafwyd adborth helaeth ar TGAU Gwyddoniaeth. Teimlai rhai ymatebwyr fod y newidiadau diweddar yn gadarnhaol (fel llai o faich gwaith i athrawon), tra bo ymatebwyr eraill yn fwy beirniadol, gan nodi'r meysydd canlynol yn bryderon: natur lafurus y cymhwyster ac effeithiau canlyniadol y dyfarniad dwbl (fel annog i beidio ag addysgu tair gwyddoniaeth ac amser annigonol i addysgu).
- 3.28 Ystyriwyd gwyddoniaeth, gan lawer o ymatebwyr ysgol, yn bwnc llafurus iawn i ddisgyblion. Dywedodd ymatebwyr ysgol fod y papur arholiad yn fwy "amleiriog" na fersiynau blaenorol. Yn y cyd-destun hwnnw, felly, gwerthfawrogwyd yr amser darllen ychwanegol gan ymatebwyr ysgol yn rhan o'r arholiad. Eglurodd un ymatebwr ysgol mai canlyniad y TGAU Gwyddoniaeth fwy llafurus oedd bod y terfyn gradd C mewn gwyddoniaeth wedi'i osod yn isel iawn, yn eu barn hwy.
- 3.29 Soniodd nifer o ymatebwyr ysgol eu bod yn flaenorol yn defnyddio'r BTEC Gwyddoniaeth a'i bod wedi cymryd hirach i baratoi athrawon yn ddigonol i addysgu'r TGAU Gwyddoniaeth newydd yn effeithiol. Ystyriai'r rhan fwyaf fod y cwrs gwyddoniaeth newydd yn well na BTEC, er bod rhai'n dweud bod disgyblion llai galluog yn cael trafferth. Soniodd rhai ysgolion eu bod yn ystyried ailgyflwyno BTEC Gwyddoniaeth i ddisgyblion llai galluog.
- 3.30 Roedd cynnwys dau slot gwyddoniaeth ar gadw yn Sgôr 9 Pwynt wedi'i Chapio ysgolion wedi'i gwneud yn anodd i ysgolion addysgu tair gwyddoniaeth ar wahân, yn ôl rhai ymatebwyr ysgol.

"Mae ceisio cynnig tair gwyddoniaeth yn gallu bod yn hunllef amserlennu i ysgolion, ac ysgolion llai yn benodol, felly bydd y ffocws yn anochel ar y dyfarniad gwyddoniaeth ddwbl, sef yr hyn a fesurir." Ymatebwr ysgol

- 3.31 Er bod y dyfarniad dwbl TGAU Gwyddoniaeth newydd yn cyfrif fel dwy TGAU, teimlwyd nad oedd digon o amser wedi'i gynnwys yn y cwricwlwm i'w gyflenwi. Roedd rhai ymatebwyr polisi hefyd o'r farn fod diffyg sgiliau i addysgu'r cymwysterau newydd, a bod gofyn mwy o hyfforddiant ar athrawon.
- 3.32 Teimlwyd bod baich gwaith athrawon wedi lleihau o ganlyniad i'r dyfarniad dwbl TGAU Gwyddoniaeth cyfredol. Nodwyd hyn gan athrawon yn gymorth iddynt ganolbwyntio ar agweddau eraill ar y cymhwyster.

"O'r blaen roedd llawer iawn o waith cwrs, felly tri darn ym Mlwyddyn 10 ac un darn mawr ym Mlwyddyn 11, a'r rhain oll yn cael eu cyflwyno ar ddechrau mis Mai. Felly byddai gennych gannoedd o ddarnau o waith ac, yn awr, cawn yr arholiad ymarferol ar ôl y Nadolig ac mae'n cael ei farcio'n allanol. Mae hynny'n rhywbeth cadarnhaol iawn." Ymatebwr ysgol

- 3.33 Teimlai rhanddeiliaid ysgol fod y cyd-destun Cymreig wedi'i ymgorffori'n effeithiol yn y cwricwlwm gwyddoniaeth. Er bod rhai'n dweud eu bod yn poeni'n wreiddiol ei fod wedi'i orfodi gormod, maent bellach o'r farn ei fod yn weddol addas.

“Mae'r cyd-destun Cymreig yn amlwg yn y maes llafur gwyddoniaeth, e.e. ymdrin â Wallis yn ogystal â Darwin. Pan gyflwynwyd y cymwysterau newydd gyntaf, fodd bynnag, roedd fel petai'r cyd-destun Cymreig yn rhy amlwg, bron wedi'i orfodi. Ond erbyn hyn, mae'r athrawon wedi deall yn well sut y bwriedir y dylid ymdrin ag ef, ac mae wedi dod yn rhan fwy naturiol a llai cymelledig o gyflenwi'r cyrsiau.” Ymatebwr ysgol

Saesneg

- 3.34 Roedd cefnogaeth helaeth i'r cymwysterau iaith a llenyddiaeth Saesneg diwygiedig ymhlith athrawon. Codwyd rhai materion mewn perthynas â'r ffocws newydd ar sgiliau, gwaredu Llenyddiaeth Saesneg o'r Sgôr 9 Pwynt wedi'i Chapio yn 2018, gwaith paratoi annigonol i athrawon cyn y fanyleb newydd, dewis barddoniaeth sy'n gysylltiedig â chanfyddiad cyd-destun Cymreig, a'r adolygiad o derfyn gradd TGAU iaith Saesneg.

- 3.35 Ni chredai un ymatebwr ysgol fod y newidiadau i iaith Saesneg yn ddefnyddiol, am fod y ffocws ar sgiliau yn mentro gwthio sgiliau pwysig eraill o'u lle.

“Cafwyd ffocws yn y cwrs TGAU iaith Saesneg newydd ar 'sgiliau ymarferol' fel dehongli ffeithluniau ac ati. Er fy mod yn gallu gweld y rhesymeg yn y dull trawsgwricwlaidd hwn o ran paratoi pobl ifanc ar gyfer bywyd go iawn, mae'n golygu bod llai o amser ar gael i agweddau mwy llenyddol ac ieithyddol ar y maes llafur. O ganlyniad, nid yw'r cymhwyster TGAU newydd yn helpu i ddatblygu sgiliau darllen uwch y disgyblion i'r un graddau ac nid yw, felly, yn eu paratoi cystal i astudio Saesneg ar Safon Uwch.”

- 3.36 Roedd y pwyslais mwy ar addysgu iaith Saesneg o ganlyniad i'r ffaith nad yw cymwysterau llenyddiaeth Saesneg yn cyfrif rhagor tuag at yr elfen llythrennedd craidd yn y Sgôr 9 Pwynt wedi'i Chapio yn peri gofid i rai ymatebwyr ysgol.

- 3.37 Codwyd materion penodol ynghylch gwaith paratoi annigonol cyn cyflwyno'r cymwysterau ar eu newydd wedd, a diffyg arweiniad clir mewn agweddau fel synthesis mewn iaith Saesneg.

“... roedd deunyddiau enghreifftio ar synthesis yn aneglur pan gawsant eu cyhoeddi gyntaf. Golygai hyn nad oedd athrawon yn glir am yr hyn a ddisgwyliwyd a sut oedd mynd ati i baratoi eu disgyblion.” Ymatebwr ysgol

- 3.38 Teimlai un ymatebwr ysgol fod barddoniaeth o ansawdd gwaeth gan feirdd Cymreig yn gwthio amrywiaeth ehangach, fwy cyfoethog o lenyddiaeth Saesneg o'r ffordd er mwyn cael y cyd-destun Cymreig.
- 3.39 Credwyd bod y mater ynghylch terfynau gradd ar gyfer TGAU Saesneg yn anffodus, a'i fod wedi'i waethgu gan ymateb Cymwysterau Cymru, a ystyriwyd, ar ei orau, yn un heb empathi a dealltwriaeth, ac, ar ei waethaf, yn ddiffygiol.
- 3.40 Mynegwyd pryder, gan un ymatebwr polisi, am *"anweddolrwydd"*, gan ddweud bod terfynau gradd wedi *"codi a gostwng bob blwyddyn"* ers cyflwyno'r cymwysterau newydd, gan adlewyrchu *"ymatebion plwc pen-glin i amgylchiadau annisgwyl"*, a oedd, ym marn un ymatebwr polisi, *"yn gwbl ragweladwy i unrhyw un sy'n addysgu'r pynciau hyn"*. Dadleuwyd bod Cymwysterau Cymru a CBAC wedi *"methu â meddalu'r glanio"* wrth i'r cymwysterau newydd gael eu cyflwyno ac wedi methu â sicrhau cysondeb a chymaroldeb graddau a ddyfarnir o'r naill flwyddyn i'r llall. Dadleuwyd hefyd fod trefniadau pontio wedi'u rhoi ar waith, yn Lloegr, *"i sicrhau nad oedd plant yn talu'n ddrud [am y newidiadau]"* drwy gael graddau is nag y gellid bod wedi'u dyfarnu iddynt mewn blynyddoedd eraill. Fodd bynnag, mae hyn yn arwydd o ryw gamddealltwriaeth am fod yr un dulliau a threfniadau yn union wedi'u cymhwyso yng Nghymru ag yn Lloegr.
- 3.41 Roedd rhywfaint o bryder ac amheuaeth yn parhau ymhlith rhai rhanddeiliaid fod system cwota graddau ar waith, er eu bod yn cydnabod bod hyn wedi'i wadu'n gyhoeddus.

Iaith Gymraeg

- 3.42 Roedd cefnogaeth i'r diwygiadau cymhwyster mewn TGAU iaith Gymraeg. Roedd y mater allweddol ynghylch iaith Gymraeg yn berthynol i'r cydbwysedd rhwng y ddau gymhwyster yn ymdrin â'r Gymraeg yn famiaith ac yn ail iaith.
- 3.43 Croesawyd y ddibyniaeth gynyddol ar arholiadau i asesu disgyblion sy'n astudio'r Gymraeg yn famiaith gan randdeiliaid ysgol, am ei bod yn haws ei gweinyddu gan athrawon ac am ei bod yn cael ei hystyried yn brawf cadarnach o sgiliau iaith disgyblion. Fodd bynnag, teimlwyd bod y dull seiliedig ar arholi yn tueddu i weddu'n well i ddisgyblion sy'n fwy academaidd alluog nag i ddisgyblion â llai o allu academaidd.
- 3.44 Ar hyn o bryd, gwaherddir myfyrwyr rhag ymgeisio am y cymhwyster ail iaith os ydynt wedi dilyn ffrwd addysg cyfrwng Gymraeg hyd at ddiwedd CA3. Credai rhai ymatebwyr (a allai fod yn ymwybodol o'r gwaharddiad neu beidio) y gallai myfyrwyr gwannach, yn y dyfodol, fod yn fwy tebygol o gael eu cofrestru am y cymhwyster ail iaith er mwyn sicrhau gwell gradd, er bod ganddynt y gallu efallai i sicrhau'r cymhwyster mamiaith mwy heriol, er mwyn gwella mesurau perfformiad ysgol.

“Mae’r sgôr pwyntiau llythrennedd ar gyfer y Gymraeg i ddisgyblion sy’n astudio Cymraeg yn famiaith yn unig, yn hytrach na’r grŵp blwyddyn cyfan. Mae hyn yn dwyn canlyniad gwrthnysig, sef annog ysgolion i gofrestru disgyblion sydd efallai â’r gallu i astudio’r Gymraeg yn famiaith ar gyrsiau ail iaith, gan amddifadu’r disgyblion felly o’r cyfle i astudio’r Gymraeg ar lefel uwch.” Ymatebwr ysgol

- 3.45 Roedd rhai ymatebwyr ysgol yn siomedig na fu Llywodraeth Cymru’n ddewrach yn hyn o beth drwy gyflwyno cymhwyster ar sail ‘continwmm iaith’ yn hytrach na chael dau gymhwyster iaith Gymraeg ar wahân. Ym marn un ymatebwr, byddai hyn wedi herio ysgolion i *“gymryd yr iaith Gymraeg fwy o ddifrif yn hytrach na chynhyrchu disgyblion ag A* mewn Cymraeg ail iaith na allant hyd yn oed siarad yr iaith”*.
- 3.46 Ymhlith athrawon roedd rhywfaint o wahaniaeth barn ynghylch a yw’r newidiadau i gymwysterau TGAU wedi dwyn mwy o gydraddoldeb rhwng cymwysterau iaith Saesneg a Chymraeg. Teimlai rhai eu bod bellach yn gyfartal â’i gilydd, a theimlai eraill fod y cymhwyster iaith Gymraeg yn haws na’r cymhwyster iaith Saesneg.
- 3.47 Cafodd nifer o ysgolion drafferth yn penodi athrawon Cymraeg priodol o gymwysedig i addysgu Cymraeg yn ail iaith. Golygai hyn eu bod yn defnyddio siaradwyr Cymraeg wedi’u hyfforddi i addysgu pynciau eraill i addysgu pwnc blaenoriaeth (er nad yw’n bwnc craidd). O ystyried bod y TGAU Cymraeg ail iaith ddiwygiedig wedi’i gwneud yn fwy cadarn, ystyriwyd bod hyn yn fater penodol o heriol a’i fod yn debygol o effeithio ar berfformiad rhai ysgolion yn 2019.

Llenyddiaeth Gymraeg

- 3.48 Cafwyd yr argraff fod diffyg cydraddoldeb rhwng TGAU Llenyddiaeth Gymraeg a TGAU Llenyddiaeth Saesneg yn yr ystyr fod y cymhwyster Llenyddiaeth Gymraeg yn cael ei ystyried yn galetach. Er enghraifft, teimlai un ymatebwr ysgol fod y TGAU Llenyddiaeth Gymraeg yn debyg i Safon UG ac nid TGAU.
- 3.49 Teimlai un rhanddeiliad ysgol fod y gofyniad i astudio 10 cerdd ar gyfer Llenyddiaeth Gymraeg braidd yn ormodol, gan gredu y byddai wyth yn nifer mwy hydrin.

Mathemateg

- 3.50 Mae TGAU Mathemateg Rhifedd yn cael ei gwreiddio yn y cwricwlwm gyda llai o bryderon am y cymhwyster ei hun neu gyflenwi’r cymhwyster. Cyfeiriodd yr ymatebwyr at nifer o bethau cadarnhaol fel cydnabod pwysigrwydd mathemateg yn y Sgôr 9 Pwynt wedi’i Chapio a gwell cyd-destun Cymreig. Serch hynny, roedd pryderon am ofynion llythrennedd, niferoedd gormodol o

arholiadau, cydbwyso disgwyliadau rhwng yr haenau sylfaen a chanolradd, a her barhaus recriwtio athrawon mathemateg i'r proffesiwn.

- 3.51 Roedd un ymatebwr polisi yn croesawu cyflwyno'r TGAU Mathemateg Rhifedd annibynnol, a oedd cyn 2019 yn cyfrif fel mesur ar wahân yn Sgôr 9 Pwynt wedi'i Chapio ysgolion.
- 3.52 Teimlai un ymatebwr cyflogwyr fod y cymwysterau mathemateg yn gweithio'n dda ac yn paratoi pobl ifanc ar gyfer prentisiaethau gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg (STEM).
- 3.53 Ystyriai llawer o ymatebwyr ysgol fod mwy o ddarllen a deall yn y maes llafur Mathemateg Rhifedd newydd. Yn benodol, teimlwyd bod hyn yn fwy heriol i ddisgyblion llai galluog â sgiliau llythrennedd gwannach.

"Mae gan y maes llafur Rhifedd newydd lai o gynnwys mathemateg na chysiau blaenorol ond mae'n gofyn i'r disgyblion ddarllen a deall cwestiynau i raddau mwy." Ymatebwr ysgol

- 3.54 Teimlai rhai ymatebwyr ysgol fod pedwar arholiad i ymdrin â Mathemateg a Mathemateg Rhifedd yn ormod, yn enwedig i ddisgyblion â llai o allu.
- 3.55 Ystyriwyd bod y cyd-destun Cymreig wedi gwella yn yr ystyr fod yr enwau a ddefnyddir yn rhai Cymraeg a'r lleoedd a'r mapiau y cyfeirir atynt yng Nghymru.
- 3.56 Teimlai un ymatebwr polisi fod y dystysgrif Lefel 2 mewn mathemateg ychwanegol yn gymhwyster defnyddiol i'w gael i ddisgyblion mwy galluog.
- 3.57 Dadleuwyd bod gwaredu posibilrwydd cyflawni gradd C i'r rheini sy'n astudio mathemateg haen sylfaen wedi annog ysgolion i gyflwyno'r rheini â *"hyd yn oed siawns weddol o gael C"* am yr haen ganolradd (ymatebwyr polisi, addysg bellach ac ysgolion). Nid yw hyn o reidrwydd yn arwain at y profiad gorau o fathemateg neu rifedd i rai disgyblion. Awgrymwyd y dylai 'perfformiad eithriadol' yn yr haen sylfaen gael ei wobrwyo â gradd C, ac nid yw hyn yn digwydd ar hyn o bryd.
- 3.58 Roedd cyflwyno'r cymwysterau newydd yn cyd-daro â *"gostyngiad mewn arbenigedd mathemateg yn gyffredinol"*, yn ôl un ymatebwr polisi. Roedd yn teimlo bod llai o fathemategwyr yn ymuno â'r proffesiwn addysgu. Credwyd bod y sefyllfa hon yn waeth yng ngogledd-orllewin Cymru, oherwydd yr angen i ddenu athrawon â'r sgiliau sydd eu hangen i addysgu mathemateg drwy gyfrwng y Gymraeg.

Pynciau eraill

- 3.59 Codwyd dau beth terfynol ynghylch asesiadau heb arholiad a faint o amser a gymerodd i ddiwygio'r cymhwyster technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).
- 3.60 Codwyd pryderon gan rai ysgolion ynghylch asesiad heb arholiad mewn daearyddiaeth a chyfrifiadureg. Yn benodol, roedd yr asesiad hwnnw'n gwthio gweddill cynnwys y pwnc o'i le.

“Mewn daearyddiaeth, mae'r asesiad heb arholiad yn elfen anferth ac mae'n cymryd gormod o amser, fel nad oes digon o amser i addysgu gweddill y cynnwys.” Ymatebwr ysgol

- 3.61 Teimlai un ymatebwr ysgol ei bod wedi cymryd rhy hir i ddiwygio'r TGAU TGCh, nes ei bod bellach yn anaddas at y diben am ei bod wedi dyddio.

Safon Uwch

- 3.62 Roedd teimlad cyffredinol ymhlith y rhan fwyaf o randdeiliaid fod y cymwysterau Safon Uwch yn gweithio'n dda. Roedd enghreifftiau o'r pethau cadarnhaol a godwyd yn cynnwys:
- Ystyriwyd bod manylebau cymhwyster yn fwy cytbwys
 - Roedd myfyrwyr yn cael cynigion gan sefydliadau addysg uwch da
- 3.63 Pwysleisiodd llawer o ymatebwyr ysgol eu hyder yn null modiwlaid UG/U2 a chefnogaeth iddo, am eu bod yn teimlo ei fod yn gweithio'n dda i fyfyrwyr. Teimlai un ymatebwr ysgol fod model Cymru lle mae'r Safon UG yn parhau i gyfrannu at y radd Safon Uwch efallai'n cael ei ystyried yn israddol i fodel Lloegr am nad yw wedi newid, ond teimlai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr ei fod yn helpu i wahaniaethu myfyrwyr Cymru i sefydliadau addysg uwch a chyflogwyr.
- 3.64 Roedd un ymatebwr polisi'n poeni bod llai o ddisgyblion yn dewis yr hyn a alwdd yn bynciau “*di-graidd*” am Safon Uwch. Yn ôl y rhanddeiliad hwn, y ganlyneb oedd bod mwy'n dewis mathemateg a gwyddoniaeth am Safon Uwch (yn benodol mewn ysgolion sy'n perfformio'n uwch) ar draul y dyniaethau a'r celfyddydau creadigol.
- 3.65 Nododd rhanddeiliaid ysgol nad oedd eto'n amlwg ba effeithiau y byddai newidiadau i gymwysterau TGAU yn eu cael ar barodrydd disgyblion i lwyddo mewn cymwysterau Safon Uwch.
- 3.66 Amlygwyd rhai materion penodol i bwnc fel a ganlyn:
- Gwyddoniaeth: roedd cefnogaeth ar gyfer cadw'r elfennau ymarferol yn y radd gyffredinol ar gyfer Safon Uwch Gwyddoniaeth (ymatebwyr ysgol). Yn benodol, gwrthgyferbynnwyd hyn â'r dull yn Lloegr, lle maent yn gwahanu elfen

ymarferol Safon Uwch Gwyddoniaeth ac yn ei hasesu'n annibynnol ar elfen wybodaeth y cymhwyster. Yn ôl ymatebwyr sefydliadau addysg uwch, mae hyn wedi golygu er mwyn sicrhau cywerthedd fod gwahanol ymagweddau wedi'u cymryd ar gyfer derbyniadau mewn perthynas â chysiau seiliedig ar wyddoniaeth: mae'r prifysgolion y tu allan i Gymru yn mynnu bod myfyrwyr Safon Uwch Gwyddoniaeth Lloegr yn pasio eu prawf ymarferol gwyddoniaeth, ond ni fyddent yn disgwyl hyn gan fyfyrwyr Cymru am fod yr elfen ymarferol yn rhan o'r asesiad Safon Uwch cyffredinol yng Nghymru.

- **Mathemateg:** dywedodd un ymatebwr addysg bellach fod athrawon mathemateg yn cael y cymhwyster newydd yn heriol ei addysgu, oherwydd ei fanylwydd cynyddol. Roedd argraff y gallai hyn arwain at ofyniad i uwchsgilio athrawon mathemateg, yn enwedig mewn perthynas â mathemateg bellach.
- **Llenyddiaeth Saesneg:** teimlwyd ei bod yn academiaidd iawn ac yn heriol iawn gan un ymatebwr polisi.

Adnoddau

3.67 Roedd mater adnoddau yn canolbwyntio ar gael adnoddau a deunyddiau wedi'u cyfieithu ar gael mewn pryd. Cydnabuwyd bod cydweithio ar lefel ranbarthol wedi helpu ond roedd teimlad cyffredinol o hyd fod myfyrwyr Cymraeg dan anfantais ers symud at un corff dyfarnu ar gyfer cymwysterau TGAU a Safon Uwch a dargyfeirio o farchnad gymwysterau ehangach a fyddai'n fwy deniadol i gyhoeddwyr adnoddau.

3.68 Roedd pryderon penodol am ddiffyg adnoddau ar gael ar yr un pryd â rhyddhau cymwysterau newydd ar gyfer Safon Uwch a TGAU.

“Mae'r heriau o ymdrin â newidiadau i'r cymwysterau wedi bod yn fwy oherwydd cyfathrebu sâl gan CBAC a phrinder adnoddau addysgu a dysgu mewn rhai meysydd pwnc.” Ymatebwr polisi

3.69 Roedd un ymatebwr ysgol dan yr argraff fod gan CBAC gyfrifoldeb i gynhyrchu gwerslyfrau, gan roi'r bai arno am fethu â chynhyrchu gwerslyfrau ar gyfer mathemateg neu fathemateg bellach adeg cyflwyno'r cymwysterau newydd.

“Cyflogais arbenigwr mathemateg i gynhyrchu ein hadnoddau ein hunain, am gost o ryw £44k y flwyddyn. Byddwn yn barod i 'roi'r cyfan am ddim iddynt' er mwyn i ysgolion eraill elwa.” Ymatebwr ysgol

3.70 Teimlai'r ymatebwr ysgol hwn mai cyfrifoldeb Cymwysterau Cymru yw dal CBAC i gyfrif am beidio â chael adnoddau addysgu a dysgu priodol yn eu lle i gefnogi cysiau newydd.

3.71 Teimlai ymatebwr ysgol arall y dylai Cymwysterau Cymru orfodi CBAC i gynhyrchu mwy o bapurau arholi enghreifftiol yn unol â chymwysterau

newydd, o ystyried absenoldeb papurau blaenorol yn y cyfnod hwn i helpu i baratoi myfyrwyr.

- 3.72 Cyfeiriwyd droeon at argraff o danflaenoriaethu'r iaith Gymraeg o ran adnoddau. Pryderwyd am fod adnoddau adolygu TGAU yn y Gymraeg yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach na'u fersiynau iaith Saesneg cyfatebol. Pwysleisiodd rhai ymatebwyr ysgol y dylai adnoddau cyfrwng Gymraeg gael eu cyhoeddi ar yr un pryd.
- 3.73 Teimlai ysgolion a rhanddeiliaid polisi nad oedd yn ariannol hyfyw i lawer o sefydliadau cyhoeddi gynhyrchu adnoddau wedi'u teilwra i fyfyrwyr yng Nghymru. Felly, roeddent yn poeni bod hyn yn mentro gosod disgyblion Cymru o dan anfantais.
- 3.74 Teimlai rhanddeiliaid polisi fod diffyg cydnabyddiaeth a dealltwriaeth o'r effaith a gaiff y diffyg adnoddau i gefnogi cymwysterau ar athrawon, *"yn enwedig yng Nghymru, lle mae prinder adnoddau"*. Amlygwyd bod rhanbarthau ac ysgolion yn dod ynghyd i geisio ymateb i'r angen am adnoddau ychwanegol, ond bod terfynau i'r hyn y gellid ei gyflawni yn y modd hwn.

Bagloriaeth Cymru

- 3.75 Codwyd llai o faterion ynghylch Bagloriaeth Cymru a'r Dystysgrif Her Sgiliau (SCC) o gymharu â blynyddoedd blaenorol, a hynny'n awgrymu bod y cymhwyster wedi bwrw ei wreiddiau. Fodd bynnag, roedd pwnc Bagloriaeth Cymru ac SCC yn hollti barn. Trafodwn isod rai safbwyntiau cyffredinol am Fagloriaeth Cymru cyn archwilio materion sy'n benodol i SCC ar wahân.
- 3.76 Roedd rhai ymatebwyr ysgol yn cefnogi SCC a dywedodd un ymatebwr ei fod wedi sylwi ar newid mewn safonau, gyda'r addysgu a'r dysgu wedi gwella dros y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, teimlai llawer o ymatebwyr ysgol ei bod yn heriol ei ffitio yn y cwricwlwm ochr yn ochr â'r holl newidiadau diweddar eraill.
- "Rydym yn credu ym Magloriaeth Cymru [yr ymatebwr yn golygu SCC]; rydym yn credu ei fod yn gymhwyster arbennig, ond y broblem yw cael amser i wneud y cyfan."* Ymatebwr ysgol
- 3.77 Roedd rhai ymatebwyr ysgol a choleg yn gwerthfawrogi agweddau fel meddwl beirniadol, sgiliau ar gyfer bywyd go iawn, a chymorth i ddilyniant o'r lefelau is i Lefel 3.
- 3.78 Dywedodd un rhanddeiliaid polisi ei fod yn *"gymhwyster anhygoel"* a nododd fod ysgolion yn Lloegr *"yn straffaglu yn ceisio dyfeisio eu diploma mewnol eu hunain ... a achredir yn unig gan yr ysgol"*.
- 3.79 Roedd gan rhanddeiliaid rai pryderon yn y meysydd canlynol:

- A fyddai SCC yn cyd-fynd â'r trefniadau asesu a'r cwricwlwm ysgol newydd (ymatebwr polisi)
 - Barn fod gweithrediad parhaus Bagloriaeth Cymru yn ffrwyth penderfyniad gwleidyddol a wnaethpwyd gan Lywodraeth Cymru nid Cymwysterau Cymru, ond bod hyn yn herio annibyniaeth Cymwysterau Cymru (ymatebwr addysg bellach)
 - Barn fod gormod o waith ysgrifenedig yn rhan o SCC (ymatebwyr polisi)
 - Diffyg ymgysylltiad Cymwysterau Cymru ar awgrymiadau adborth i wella'r SCC (ymatebwr addysg bellach)
- 3.80 O ran cwestiynu a yw ysgolion a cholegau yn ymrwymo mewn gwirionedd i Fagloriaeth Cymru, nododd un ymatebwr ysgol fod rhai ysgolion a cholegau yn marchnata eu hunain fel rhai nad ydynt yn cymell myfyrwyr i ddilyn SCC (ar Lefel 3). Dywedodd un ymatebwr ysgol annibynnol nad oedd yn credu ei fod yn ychwanegu unrhyw beth at gymwysterau TGAU a Safon Uwch, felly nid oedd yn ei gyflenwi. Dywedodd ysgol arall y byddai'n penderfynu parhau ag SCC ai peidio gan ddibynnu ar sut byddai Estyn yn ymateb i ysgolion yn peidio â'i gynnig yn rhan o'r cwricwlwm.
- 3.81 Disgrifiodd un ymatebwr ysgol lefel y dryswch a oedd wedi bod, ac a oedd mewn rhai achosion yn parhau, ynghylch y cymhwyster.

“Cafwyd ychydig o ddryswch yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae rhieni a myfyrwyr a hyd yn oed athrawon wedi’u drysu ar adegau. Yn yr holl drafod hyn, mae pobl yn cael y negeseuon anghywir. Dyna pam maen nhw wedi ailfrandio, felly dylid ei ddeall yn well yn awr.” Ymatebwr ysgol

- 3.82 Yn ôl un rhanddeiliad polisi, roedd mwyafrif o ddisgyblion yn fras gadarnhaol am gymhwyster SCC, ond nodwyd bod agweddau disgyblion yn gyffredinol yn adlewyrchu'r statws y mae ysgolion ac arweinwyr ysgol yn ei osod wrth y cwrs. Cefnogwyd hyn gan un ymatebwr polisi arall a ddywedodd fod ansawdd y profiad SCC a gafodd pobl ifanc yn dibynnu'n fawr iawn ar agweddau eu hathrawon tuag at y cymhwyster a'r sgiliau addysgu a oedd ganddynt *“i'w wneud yn ddiddorol ac yn berthnasol”*.

SCC CA4 wedi'i hastudio ochr yn ochr â chymwysterau TGAU

- 3.83 Roedd llai o sylwadau am SCC CA4 o'i chymharu â'r SCC Uwch. Yn CA4, croesawyd (gan ymatebwyr polisi ac ysgol) fod y Dystysgrif Her Sgiliau yn gallu cyfrif tuag at Sgôr 9 Pwynt wedi'i Chapio ysgolion.
- 3.84 Fodd bynnag, nodwyd hefyd nad oedd yn flaenoriaeth mor uchel ag y gallai fod, am nad oedd ymhlith y 'pynciau' craidd. Dywedodd un ymatebwr ysgol arall hefyd mai ychydig iawn o fyfyrwyr sy'n methu, felly ei fod yn cael ei ystyried yn *“gymhwyster hawdd ei gael”*.

- 3.85 Teimlai ambell ymatebwr ysgol fod yr asesiad yn rhan rhy fawr o'r broses. Roeddent yn teimlo bod hyn yn tynnu i ffwrdd o brofiad disgyblion o'r cymhwyster.

“Ar Lefel 2 ar gyfer y TGAU mae ganddynt bedair her, a phob un yn asesiad. Mae 3 neu 4 tasg ym mhob asesiad. Mae'n ymwneud yn llai â'r profiad ac yn fwy â'r asesu.” Ymatebwr ysgol

SCC Uwch

- 3.86 Astudir yr SCC Uwch ochr yn ochr â chymwysterau Safon Uwch a chymwysterau Lefel 3 eraill. Roedd tipyn o gefnogaeth bwerus i'r SCC Uwch, er bod hefyd rhai beirniadaethau llym.
- 3.87 Roedd llawer o ymatebwyr yn gwerthfawrogi'r SCC ac yn credu ei fod yn gymhwyster gwerthfawr. Amlygodd un ymatebwr ysgol, a oedd yn gefnogol iawn o SCC ar Lefel 3, y buddion (a nodwyd gan eraill) i fyfyrwyr ynghylch datblygu sgiliau bywyd ehangach a sgiliau cyflogadwyedd.

“Mae disgyblion yn gwneud yn dda ym Bagloriaeth Cymru Lefel Uwch [SCC] ac rwy'n credu bod disgyblion yn cael profiadau da o ganlyniad i ddilyn y cymhwyster ... Mae'n estyn gorwelion disgyblion deallus, cydwybodol ... mae'n ymestyn y rheini sy'n astudio mathemateg, ffiseg a chemeg i wneud pethau gwahanol ... i siarad o flaen pobl ... i wneud pethau na fuasant yn eu gwneud heblaw Bagloriaeth Cymru. Mae'r traethawd/prosiect estynedig yn helpu'r disgyblion i ddatblygu'r mathau o sgiliau sydd eu hangen i astudio ar lefelau uwch. Mae prosiectau estynedig hefyd yn rhoi rhywbeth i ddisgyblion ei drafod wrth fynychu cyfweiliadau prifysgol.” Ymatebwr ysgol

- 3.88 Roedd rhai ymatebwyr ysgol yn argyhoeddedig fod y profiad o wneud yr SCC Uwch wedi helpu eu disgyblion i sicrhau lleoedd mewn prifysgolion da y gallent fel arall fod wedi cael trafferth yn cael lle ynddynt. Eglurodd un ymatebwr ysgol fod ei ysgol yn buddsoddi llawer iawn o amser staff yn SCC ac roedd yn teimlo bod athrawon yn dechrau deall pŵer SCC a'i photensial i'r myfyrwyr.
- 3.89 Ystyriai ymatebwyr ysgol fod y ffaith fod 'craidd' Bagloriaeth Cymru bellach wedi'i ddisodli gan yr SCC, sef cymhwyster annibynnol sy'n cael ei raddio, yn ddatblygiad da ac yn fodd i ymgeiswyr cryf arddangos lefel uwch o sgiliau. Fodd bynnag, teimlai rhai ymatebwyr ysgol fod y trefniadau asesu “yn drwsgl a beichus”. Roeddent yn gobeithio y byddai trefniadau asesu a chymedroli ar gyfer SCC yn cael eu rhesymoli yn y dyfodol, ond roeddent yn ychwanegu hefyd nad oedd mor hawdd cael cymhwyster SCC ar Lefel 3 yn awr ag yr arferai fod.
- 3.90 Roedd y safbwyntiau mwy beirniadol yn amrywio o addysgwyr yn anghytuno ei fod yn academiaidd werthfawr, i rai a gredai ei fod yn rhy academiaidd, i eraill a deimlai nad oedd myfyrwyr yn ei werthfawrogi.

“Nid cymhwyster academiaidd mohono ond brand, ac nid oes ganddo fanylrwydd academiaidd.” Ymatebwr ysgol

“Mae Bagloriaeth Cymru yn ffafrio disgyblion sy’n fwy galluog yn academiaidd yn CA5.” Ymatebwr ysgol

“Mae rhai o’r disgyblion yn ei chael ychydig yn ddiflas gorfod gwneud [SCC] ar ben y Safon Uwch. Am fod rhaid iddynt gymryd yr elfen sgiliau ochr yn ochr â’r Safon Uwch, nid ydynt yn ei chymryd cymaint o ddifrif.” Ymatebwr ysgol

- 3.91 Roedd gan ymatebwyr addysg bellach wahanol safbwynt am Bagloriaeth Cymru. Cafwyd argraff mai dim ond lleiafrif o ddysgwyr addysg bellach sy’n manteisio ar gymhwyster SCC. Eglurodd un ymatebwr addysg bellach fod ganddynt lawer o fyfyrwyr nad oedd ganddynt radd C mewn TGAU Saesneg a Mathemateg, ac felly’n teimlo bod angen iddynt flaenoriaethu’r cymwysterau hyn dros fynnu bod y myfyrwyr hyn yn gweithio tuag at SCC.
- 3.92 Nododd un ymatebwr polisi fod rhai colegau a dosbarthiadau chweched yn gwneud pwynt gwerthu o beidio â chyflenwi SCC yn CA5 a chredwyd bod hyn yn ddeniadol i rai myfyrwyr. Roedd pryder, a fynegwyd gan un ymatebwr addysg bellach, y gallai colegau nad ydynt yn cyflenwi’r SCC Uwch yn CA5 gael eu cosbi’n ariannol yn y dyfodol.

Canfyddiadau ac agweddau sefydliadau addysg uwch

- 3.93 Yn rhan o’r ymchwil, buom yn archwilio barn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru a’r tu allan i Gymru.
- 3.94 Cafwyd dargyfeirio canfyddiadau ymhlith rhanddeiliaid ynghylch sut oedd sefydliadau addysg uwch yn ystyried Bagloriaeth Cymru yn y broses dderbyn a sut oedd sefydliadau addysg uwch yn gwerthfawrogi’r cymhwyster mewn gwirionedd wrth ystyried darpar fyfyrwyr. Credai rhai mai prin yw ei werth ym mhroses ymgeisio UCAS, tra bo eraill yn credu bod sefydliadau addysg uwch yn ei werthfawrogi yn rhan o’r broses.

“Deallaf fod sefydliadau addysg uwch sy’n draddodiadol yn denu niferoedd mawr o bobl ifanc o Gymru yn ystyried Bagloriaeth Cymru lefel uwch yn ffafriol, ond nid wyf yn credu bod pob prifysgol yn derbyn Bagloriaeth Cymru yn gywerth â Safon Uwch.” Ymatebwr polisi

“Nid oes unrhyw wir fudd i wneud Bagloriaeth Cymru ar Safon Uwch oherwydd prin iawn yw’r dystiolaeth fod sefydliadau addysg uwch yn ystyried hwn yn bwnc defnyddiol neu gywerth a phrin iawn yw’r cymhelliad i fyfyrwyr wneud hyn.” Ymatebwr ysgol

- 3.95 Roedd pob sefydliad addysg uwch y siaradom ag ef yng Nghymru a'r tu hwnt yn ymwybodol o Fagloriaeth Cymru ond nid oedd pawb yn ei gwerthfawrogi yn yr un modd. Roedd sefydliadau addysg uwch y tu mewn i Gymru ar y cyfan yn fwy cefnogol ac yn cydnabod yr SCC Uwch yn gywerth â Safon Uwch ond nid ar gyfer pob cwrs. Mewn sefydliadau addysg uwch y tu allan i Gymru, roedd rhai'n ei thrin yn gywerth â Safon Uwch (yn enwedig sefydliadau ôl-1992), roedd rhai'n ei hystyried yn gymhwyster ategol yn unig (yn enwedig sefydliadau cyn-1992), ac i eraill amrywiau yn ôl cwrs a dibynnai ar y polisi derbyn ar gyfer pwnc penodol.

“Pan gyflwynwyd Bagloriaeth Cymru, roedd ymagwedd anghyson ar draws y brifysgol ynghylch a oedd yn cael ei hystyried, ai peidio, yn rhan o'r broses dderbyn. Erbyn hyn, mae yna ymagwedd safonedig.” Sefydliad addysg uwch y tu allan i Gymru

- 3.96 Er bod sefydliadau addysg uwch wedi mabwysiadu gwahanol ymagweddau at eu ffordd o ystyried Bagloriaeth Cymru yn rhan o'u proses dderbyn, roeddent yn fras groesawu'r cymhwyster, yn enwedig elfen y prosiect ymchwil, a oedd yn eu barn hwy'n helpu i bontio'r bwlch rhwng Safon Uwch a dysgu addysg uwch.

“Mae gennym ymagwedd seiliedig ar dariff at dderbyniadau, a chymhwyswn y tariff safonol ar gyfer Bagloriaeth Cymru yn ôl ein canllawiau, h.y. 120 o bwyntiau UCAS. Bu graddio Bagloriaeth Cymru yn ddefnyddiol iawn i wahaniaethu rhwng ymgeiswyr gwan a chryf.” Sefydliad addysg uwch y tu allan i Gymru

“Prin iawn, iawn yw cael myfyriwr yn ymgeisio gyda dau gymhwyster Safon Uwch a Bagloriaeth Cymru. Nid ystyriwn fod hyn yn sail ddigon llydan i symud ymlaen a chyflawni'n dda mewn addysg uwch. Mae'r rhan fwyaf o'n cyd-sefydliadau addysg uwch yn mabwysiadu ymagwedd debyg. Nid oes digon o fanylrwydd yng nghymhwyster Bagloriaeth Cymru i'w chyfrif fel Safon Uwch.” Sefydliad addysg uwch y tu allan i Gymru

- 3.97 Teimlai un ymatebwr addysg bellach y gallai Cymwysterau Cymru wneud mwy i hyrwyddo Bagloriaeth Cymru i brifysgolion y tu allan i Gymru. Serch hynny, dywedodd yr ymatebwyr sefydliadau addysg uwch y siaradom â hwy fod ganddynt ddigon o wybodaeth am y cymhwyster.

Cymwysterau galwedigaethol

- 3.98 Y meysydd allweddol a godwyd gan randdeiliaid ynghylch cymwysterau galwedigaethol oedd adolygiadau sector, datblygiad a gwerth cymwysterau galwedigaethol mewn ysgolion. Cynigiwyd hefyd rai safbwyntiau polisi gan y rhanddeiliaid.

Adolygiadau sector

3.99 Croesawodd y rhanddeiliaid yr adolygiadau sector, a rhai'n cyfeirio at yr angen am well cymwysterau.

3.100 Ystyriwyd bod y diwygio'n araf o ran adolygiadau sector, ond cydnabu'r rhanddeiliaid ei bod yn bwysig cael y newidiadau'n iawn a sicrhau eu bod yn addas at y diben.

"Gohirio cyflwyno'r cymwysterau gofal cymdeithasol a gofal plant oedd y peth cywir; fe ddechreuon nhw â'r maes mwyaf cymhleth i ddechrau, gan groesi dros lawer o ffiniau proffesiynol a rheoleiddwy yn yr arena gofal cymdeithasol, a wnaeth y diwygio'n gymhleth." Ymatebwr addysg bellach

3.101 Mynegwyd teimlad gan rhanddeiliaid polisi fod cyflogwyr ac ymarferwyr yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys gofal plant, yn croesawu'r adolygiad am eu bod o'r farn fod angen gwella'r cymwysterau ac y byddai'n rhoi mwy o statws i'w proffesiwn. Credai un ymatebwr corff dyfarnu fod risg gwyro rhwng cymwysterau yng Nghymru a Lloegr a bod gan hyn oblygiadau o bosib ar gyfer symudedd ar draws y ffin.

3.102 Ystyriai ymatebwyr polisi a dysgu seiliedig ar waith fod y newidiadau i'r maes polisi, gyda llai o gynghorau sgiliau sector, yn cyfyngu ar raddau ac effeithiolrwydd ymgynghoriadau am newidiadau i gymwysterau. Fodd bynnag, ar y cyfan, croesawyd yr adolygiadau sector yn rhai sy'n rhoi safbwynt Cymreig arbennig ac sy'n fwy effeithiol nag yn Lloegr.

"Mae [darparwyr dysgu seiliedig ar waith] yn croesawu dull Cymwysterau Cymru o adolygu cymwysterau galwedigaethol â'r dull Cymreig yn hytrach na'r dull a ddilynir yn Lloegr." Ymatebwr dysgu seiliedig ar waith

3.103 Roedd rhanddeiliaid yn gweld manteision ac anfanteision y gystadleuaeth rhwng cyrff dyfarnu i ymateb i gymwysterau galwedigaethol newydd. Ailadroddodd un ymatebwr addysg bellach ei syndod at y cyrff dyfarnu a benodwyd ar gyfer y cymwysterau iechyd a gofal cymdeithasol newydd, gan deimlo nad oedd ganddynt arbenigedd yn y sector.

3.104 Teimlai ymatebwyr addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith fod y newid yn digwydd yn rhy araf a'u bod yn disgwyl mwy, gan nodi y bu diffyg gwybodaeth i'w hysbysu, a allai effeithio ar eu parodrwydd i weithredu'r diwygiadau.

"Mae darparwyr dysgu seiliedig ar waith yn barod i gyflenwi, ond mae'r diffyg gwybodaeth yn peri gofid. Mae angen i ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith sicrhau, os oes newidiadau sylweddol, fod staff wedi'u paratoi, eu hyfforddi ac yn barod erbyn mis Medi." Ymatebwr dysgu seiliedig ar waith

3.105 Nododd darparwyr dysgu seiliedig ar waith ac ymatebwyr polisi eu barn fod cyrff dyfarnu'n ystyried bod Cymru'n farchnad ddibwys a gostyngol. Cododd hyn bryderon ynghylch diffyg cystadleuaeth a chyfrannu syniadau newydd. Roeddent yn teimlo bod rhaid i sefydliad Cymwysterau Cymru a Llywodraeth Cymru sicrhau nad oedd unrhyw fylchau o ran cymwysterau galwedigaethol i gefnogi cyflawniad polisi'r llywodraeth ac i ddarparu llwybrau gyrfa priodol i bobl ifanc.

Materion cymwysterau galwedigaethol mewn ysgolion

3.106 Roedd amrywiaeth barn helaeth am bwysigrwydd cymwysterau galwedigaethol i ddisgyblion sy'n llai academaidd-gyfeiriedig, am gymwysterau cyrff dyfarnu penodol, a'r cydbwysedd rhwng cymwysterau academaidd a galwedigaethol.

3.107 Canfuwyd bod cymwysterau galwedigaethol yn bwysig iawn, yn ôl llawer o randdeiliaid, yn enwedig i ddisgyblion llai academaidd.

“Mae cymwysterau galwedigaethol yn rhan bwysig o'r cymysgedd o opsiynau sydd ar gael i ddisgyblion, yn enwedig y rheini 'nad ydynt yn academaidd addas'.” Ymatebwr ysgol

3.108 Roedd gwahanol safbwyntiau ynghylch cymwysterau cyrff dyfarnu penodol, a amlygir yn yr enghreifftiau isod:

- Nododd un ymatebwr ysgol fod mwy o rai cymwysterau galwedigaethol yn cael eu defnyddio nad oedd ganddynt gydrannau a arholir yn allanol mewn ysgolion. Teimlwyd y gallai ysgolion eraill fod yn gwneud hyn i roi hwb i'w Sgôr 9 Pwynt wedi'i Chapio.
- Teimlai un ymatebwr polisi fod gan rai cymwysterau enw cryfach nag eraill, lle cânt eu hystyried yn 'drwydded i ymarfer'.
- Roedd gan sefydliadau addysg uwch bryderon efallai na fyddai cymwysterau galwedigaethol y dyfodol cystal â chymwysterau BTEC, am fod Pearson (datblygwr cymwysterau BTEC) yn cael ei ystyried yn effeithiol a chyfathrebol iawn: *“Nid yw'r cyrff dyfarnu eraill hanner mor slic â Pearson o ran cyfathrebu gwerth eu cymwysterau i addysg uwch.” Ymatebwr sefydliad addysg uwch*

3.109 Teimlai rhai ymatebwyr polisi na ddylai Cymwysterau Cymru a CBAC ganolbwyntio ar gynhyrchu'r hyn a alwyd yn *“gymwysterau ffug-alwedigaethol”*, nad oedd yn eu barn hwy'n cymhwyso plant i fynd i weithio. Roeddent yn credu nad oedd cymwysterau galwedigaethol i bobl ifanc 14-16 oed yn gwneud llawer mwy na rhoi blas, neu drosolwg, i'r disgyblion ar faes galwedigaethol penodol. Dadleuwyd felly ei bod yn wastraff amser annog disgyblion i ddilyn cyrsiau galwedigaethol Lefel 2 o'r fath.

“Nid yw pobl ifanc ond yn lladd amser yn eu dwy flynedd olaf yn yr ysgol ... [cyn] mynd i'r coleg addysg bellach a gwneud City & Guilds Lefel 2 ... felly

maen nhw'n gwneud dau gymhwyster ar yr un lefel yn union ... heblaw bod un yn cyfrif am ddim o ran cyflymu eu dilyniant ôl-16 ... y cyfan ydyw yw tamaid o gwricwlwm amgen, gwrthdyniadol am nad yw cymwysterau TGAU yn addas iddynt". Ymatebwr polisi

3.110 Roedd eraill o'r farn fod pynciau galwedigaethol yn cynnig dewis arall diddorol i'r rheini â'u diddordebau'n llai academaidd.

3.111 Roedd y mater cydraddoldeb bri rhwng cymwysterau llwybr 'academaidd' a 'galwedigaethol' yn parhau, gyda'r argraff nad oedd hwn wedi'i oresgyn.

"Ystyrir o hyd bod cymwysterau galwedigaethol yn rhywbeth 'israddol' i gymwysterau cyffredinol gan bobl ifanc, rhieni ac ysgolion. Golyga hyn ei bod yn her o hyd hyrwyddo cymwysterau galwedigaethol ac annog pobl ifanc i fynd ar eu trywydd." Ymatebwr polisi

3.112 Yn groes i'r pryderon am gymwysterau galwedigaethol yn cael eu hystyried yn rhai heb fanylwydd, nododd rhai ymatebwyr yr hyn a elwir natur academaidd gynyddol y cymwysterau galwedigaethol diweddaraf a'r effaith bosibl y gallai hyn ei chael ar gadw dysgwyr.

"Felly, mae gan golegau her lle mae'r cymwysterau wedi mynd yn fwy academaidd ond eto nid yw'r dysgwyr sy'n dewis y cyrsiau hyn yn academaidd. Mae'r arholiadau'n aseiniadau mwy o faint ac arholiadau a asesir yn allanol. Mae hyn yn effeithio ar eu cyfraddau sylw ac, o'u cymharu â phynciau eraill, mae'r cyfraddau cadw'n wael." Ymatebwr addysg bellach

3.113 Felly, er enghraifft, mewn iechyd a gofal cymdeithasol, teimlai un ymatebwr addysg bellach y gallai'r asesiad fod wedi cynnwys rhyw fath o asesiad gweithle a allai fod wedi helpu pobl ifanc i arddangos eu sgiliau ymarferol.

Polisi

3.114 Codwyd tri phwynt cysylltiedig â pholisi yn ymdrin â gwerth canfyddedig safonau galwedigaethol cenedlaethol, pwysigrwydd monitro dyfodiad Lefelau T yn Lloegr, a gwerth cymwysterau galwedigaethol yn y Sgôr 9 Pwynt wedi'i Chapio.

3.115 Ystyriwyd bod defnydd parhaus safonau galwedigaethol cenedlaethol yn bwysig yng Nghymru (o gymharu â Lloegr) gan ymatebwr cyflogwr: *"Mae'n golygu y gallant ddefnyddio'r rhain i ddatblygu cymwysterau newydd."*

3.116 Cyfeiriodd rhai ymatebwyr (ysgol a pholisi) at yr angen i gadw llygad ar y Lefelau T sy'n dod i'r amlwg yn Lloegr. Roeddent yn teimlo, petaent yn llwyddo, y byddai angen rhywbeth cywerth ar Gymru.

“Gallai datblygiad cymwysterau Lefel T yn Lloegr helpu i leddfu’r gwahaniaeth bri hwn, ond ni welwyd eto a fydd y newidiadau’n cael effaith berthnasol.” Ymatebwr polisi

3.117 Teimlai rhai ymatebwyr ysgol a pholisi y dylai amrywiaeth fwy o gyrsiau galwedigaethol gael eu cydnabod yn Sgôr 9 Pwynt wedi’i Chapio ysgolion.

“Gwerthfawrogwyd cwrs City & Guilds Lefel 2 mewn trin gwallt gan ddisgyblion, ond ni wnaeth fawr iawn i ysgolion o ran eu mesur naw pwynt wedi’i gapio.” Ymatebwr ysgol

Prentisiaethau

3.118 Rôl Cymwysterau Cymru yw rheoleiddio’r cymwysterau o fewn y prentisiaethau. Fodd bynnag, roedd sylwadau a wnaethpwyd ar brentisiaethau yn ymwneud gan mwyaf â’r fframweithiau prentisiaethau ac nid y cymwysterau eu hunain.

3.119 Roedd cefnogaeth gyffredinol o hyd i fframweithiau prentisiaeth Cymru, yn enwedig o’u cyferbynnu â datblygu safonau prentisiaeth yn Lloegr a’r ffaith nad yw rhai prentisiaethau newydd yn Lloegr yn cynnwys cymwysterau.

3.120 Codwyd tri phwynt bras gan yr ychydig ymatebwyr a drafododd brentisiaethau.

3.121 Yn gyntaf, roedd pryder am argaeledd fframweithiau ar gyfer meysydd galwedigaethol lle’r oedd y fframweithiau ar fin dod i ben. Roedd hyn yn gysylltiedig â’r ymgynghoriad yn cael ei gynnal mewn perthynas â’r corff llywodraethu prentisiaethau newydd yng Nghymru (gan greu rôl awdurdod cyhoeddi i fframweithiau prentisiaeth Cymru). Ystyriwyd y gallai hyn gael effaith fawr ar ddatblygu fframweithiau yn y dyfodol.

“Mae hwn yn ddatblygiad yr ydym yn cadw llygad barcud arno.” Ymatebwr cyflogwr

3.122 Yn ail, roedd mater Sgiliau Hanfodol yn y fframwaith prentisiaethau (a godwyd gan ymatebwyr polisi, dysgu seiliedig ar waith a chyrrff dyfarnu), yr ystyriwyd ei bod yn anodd iawn eu cyflawni cyn pen y terfynau amser. Roedd hwn yn fater penodol i fyfyrwyr mewn unedau cyfeirio disgyblion a dysgwyr lefel is.

3.123 Roedd pryder hefyd, a fynegwyd gan ymatebwr corff dyfarnu, fod darparwyr sy’n cyflenwi prentisiaethau’n teimlo nad oedd digon o gyllid gan Lywodraeth Cymru i gyflenwi cymwysterau Sgiliau Hanfodol, o ystyried cymaint o waith sy’n ofynnol.

“Ystyrir bod yr amser y mae’n rhaid i staff ei dreulio gyda dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau hanfodol, er mwyn cyrraedd pen y cymhwyster, yn anghymesur â’u rhaglen alwedigaethol.” Ymatebwr dysgu seiliedig ar waith

3.124 Yn drydydd, awgrymodd un ymatebwr polisi fod rhieni'n dangos mwyfwy o ddiddordeb mewn prentisiaethau a bod mwy o gyfleoedd prentisiaeth ar gael y dyddiau hyn, yn enwedig i bobl ifanc 18+ oed. Yr her, yn ôl yr ymatebwr polisi hwn, oedd argyhoeddi pobl ifanc am deilyngdod prentisiaeth, yn enwedig lle'r oedd ysgolion yn eu hannog i ddilyn llwybrau mwy academaidd.

Datblygiad proffesiynol i staff dysgu seiliedig ar waith

3.125 Yn ôl un ymatebwr polisi, nid athrawon cymwysedig mo llawer o'r staff sy'n gweithio mewn amgylcheddau dysgu seiliedig ar waith, ac mae'r angen i fuddsoddi yn y gweithlu hwn er mwyn eu galluogi i gyflenwi'r cymwysterau galwedigaethol yn flaenoriaeth bwysig.

“Mae'r rhan fwyaf o'r staff wedi'u hyfforddi a chymhwyso yn weithwyr proffesiynol; nid athrawon na hyfforddwyr mohonynt, a llawer ohonynt heb gymwysterau ffurfiol athrawon.” Ymatebwr polisi

3.126 Roedd un ymatebwr polisi yn teimlo bod mwy wedi'i roi ar waith yn ddiweddar, ond bod angen gwneud mwy, yn enwedig ynghylch:

- Ymestyn a herio dysgwyr â chwestiynu, hyfforddi a mentora, a gosod targedau yn effeithiol.
- Strategaethau asesu a dysgu, gan ddefnyddio asesiadau i gynyddu cyfleoedd dysgu a chefnu ar fodel asesu a chymhwysedd o blaid model asesu a dysgu.
- Hyfforddiant sicrhau ansawdd. Bu cyllid Cymwysterau Cymru i ddarparu hyfforddiant ar gyfer staff sicrhau ansawdd yn werthfawr. Cyflwynwyd hyn fesul dipyn drwy weithdai 'mae ansawdd yn bwysig'.
- Datblygu llwybrau proffesiynol i staff dysgu seiliedig ar waith. Mewn cysylltiad ag ymarfer cwmpasu Llywodraeth Cymru ar gyfer dysgu proffesiynol yn y sector ôl-16 a dysgu seiliedig ar waith.

4 CASGLIADAU

Hyder yn y System Gymwysterau

- 4.1 Cydnabuwyd bod Cymwysterau Cymru yn sefydliad cryf sy'n darparu arweinyddiaeth ac eglurder ynghylch rheoleiddio a chymwysterau. Ystyriwyd ei fod wedi datblygu cysylltiadau da â'r sector ysgolion, cynrychiolwyr cyflogwyr a chyrrff dyfarnu. Cafodd ei ganmol am ei ymrwymiad i ymgynghori, penderfynu a rheoleiddio agored a thryloyw.
- 4.2 Cafwyd adborth cadarnhaol ar y cyfan gan randdeiliaid am y mecanweithiau cyfathrebu a ddefnyddia Cymwysterau Cymru.
- 4.3 Fodd bynnag, roedd rhai beirniadaethau'n amlwg, yn enwedig mewn perthynas â newidiadau terfyn gradd TGAU Iaith Saesneg, y credwyd eu bod wedi effeithio ar ddisgyblion yng ngogledd Cymru (lle gwelodd rhai ysgolion ostyngiad yng nghanlyniadau'r TGAU Iaith Saesneg). Roedd tystiolaeth o ddiffyg dealltwriaeth o rolau Cymwysterau Cymru a CBAC ar draws grwpiau rhanddeiliaid. Credai'r rhanddeiliaid y gellid bod wedi dangos mwy o sensitifrwydd ar y mater penodol hwn.
- 4.4 Roedd rhanddeiliaid polisi dan yr argraff mai CBAC yn unig oedd yn barod i ddatblygu cymwysterau TGAU a Safon Uwch am fod marchnad Cymru'n rhy fach i ddenu cyrrff dyfarnu eraill. Roedd rhai rhanddeiliaid yn hoff o'r syniad o gymwysterau 'gwnaed yng Nghymru', ond mae'n debyg nad oeddent yn hoff o un o ganlyniadau hynny.
- 4.5 Roedd rhai rhanddeiliaid yn gadarnhaol am staff CBAC, perfformiad y sefydliad a'r cymorth a gânt. Roedd rhanddeiliaid eraill yn pryderu o hyd am mai CBAC yw'r unig gorff dyfarnu ar gyfer y rhan fwyaf o gymwysterau TGAU a Safon Uwch. Teimlai rhai ymatebwyr fod diffyg cystadleuaeth a gostwng ansawdd y gwasanaeth ymhlith canlyniadau negyddol hyn. Nodwyd bod gwell cyfathrebu yn flaenoriaeth bwysig o hyn ymlaen i CBAC.
- 4.6 Mynegwyd rhai pryderon ychwanegol ynghylch gallu CBAC i ymateb i ofynion system gymwysterau Cymru, gydag enghreifftiau o adnoddau Cymraeg hwyr a diffyg papurau sampl, yn absenoldeb papurau blaenorol, o ystyried y cymwysterau diwygiedig. Roedd pryderon am effeithiolrwydd y mecanweithiau ar-lein ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus a briffiau ôl-arholiad.
- 4.7 Roedd rhai pryderon ynghylch perfformiad ysgol ac arfer addysgu. Er gwaethaf y gefnogaeth gyffredinol i'r cwestiynau math PISA, dywedodd rhai ymatebwyr fod athrawon ysgol yn 'addysgu i'r prawf', yn enwedig i ddysgwyr lefel is, oherwydd maint y cynnwys a'r pwysau i gyflawni.
- 4.8 Roedd llawer o randdeiliaid yn deall yr heriau sy'n wynebu Cymwysterau Cymru, yn enwedig mewn perthynas â chyflenwi'r newidiadau cymhwyster yr

oedd Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo iddynt a'r penderfyniadau polisi mewn perthynas â newidiadau cwricwlwm a pherfformiad ysgol. Derbyniwyd bod angen i Gymru gael gwybod am y newidiadau diweddaraf sy'n digwydd yn Lloegr ac ymateb yn briodol i sicrhau cywerthedd a chydaddoldeb bri.

- 4.9 Ar y cyfan, roedd y rhanddeiliaid yn ymwybodol o lawer o'r newidiadau cwricwlwm ysgol eang ar y gweill ar gyfer y dyfodol. Roedd rhywfaint o ofn ymhlith ymatebwyr ysgol ynghylch ton newydd o ddiwygiadau a fydd yn effeithio ar addysgu pob dydd ac efallai'n rhoi mwy o bwysau ar athrawon.
- 4.10 Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r dull fesul sector o adolygu cymwysterau galwedigaethol. Fodd bynnag, roedd pryderon fod datblygiadau'n araf – er enghraifft, cymwysterau iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys gofal plant. Teimlai darparwyr dysgu seiliedig ar waith ac ymatebwyr polisi fod cyrff dyfarnu'n ystyried Cymru'n farchnad ddibwys a gostyngol – gan godi pryderon am ddiffyg cystadleuaeth a chyfrannu syniadau newydd. Roedd galw i sefydliad Cymwysterau Cymru a Llywodraeth Cymru sicrhau nad oedd unrhyw fylchau o ran cymwysterau galwedigaethol i fynd i'r afael â pholisi'r llywodraeth ac i ddarparu llwybrau gyrfa priodol i bobl ifanc.
- 4.11 Roedd gwahaniaeth barn amrywiol am bwysigrwydd cymwysterau galwedigaethol i ddisgyblion llai academaidd-gyfeiriedig, am gymwysterau cyrff dyfarnu penodol, ac am yr anghydbwysedd parhaus rhwng cymwysterau academaidd a galwedigaethol.

Hyder mewn Cymwysterau

- 4.12 Cadwodd cymwysterau TGAU a Safon Uwch gefnogaeth gref ymhlith rhanddeiliaid yng Nghymru. Nododd y rhanddeiliaid eu bod yn arwydd dibynadwy o wybodaeth a sgiliau disgybl, a'i ymroddiad i ddysgu.
- 4.13 Cytunodd llawer o randdeiliaid fod angen y diwygiadau cymhwyster. Credwyd bod y diwygiadau wedi helpu i sicrhau bod cymwysterau'n darparu portffolio cryf o ddysgu ac asesu i bobl ifanc yng Nghymru. Roedd gan ymatebwyr wahanol farn ynghylch a oedd y diwygiadau wedi cymryd rhy hir neu wedi'u gweithredu'n rhy gyflym, ond cytunasant mai'r canlyniad oedd baich ychwanegol ar athrawon.
- 4.14 Er cydnabuwyd bod safonau TGAU wedi'u codi oherwydd y diwygiadau, roedd rhai pryderon fod dysgwyr llai galluog bellach yn cael trafferth yn pasio. Cydnabu llawer o randdeiliaid yr alinio â chwestiynau math PISA, ac roedd y rhan fwyaf yn cefnogi hyn tra bo eraill yn llai argyhoeddedig.
- 4.15 Roedd gan ambell ymatebwr ysgol bryderon ynghylch maint y cynnwys mewn rhai cymwysterau TGAU, ond teimlwyd bod hyder mewn addysgu wedi gwella dros amser.

- 4.16 Cefnogodd llawer o randdeiliaid y symud tuag at asesu crynodol i gynyddu manylrwydd ond teimlwyd bod dysgwyr lefel is â llai o allu perfformio mewn arholiadau wedi'u rhoi dan anfantais drwy waredu rhai cymwysterau amgen (e.e. BTEC Gwyddoniaeth) o fesurau perfformiad ysgol.
- 4.17 Cydnabu'r rhanddeiliaid y cyd-destun Cymreig cynyddol mewn cymwysterau. Fodd bynnag, roedd siom yn yr oedi am rai adnoddau Cymraeg.
- 4.18 Roedd rhanddeiliaid o'r farn fod ymwybyddiaeth am y newidiadau i gymwysterau ymhlith rhieni a chyflogwyr yn weddol isel.
- 4.19 Mae'r penderfyniadau i gadw'r graddau llythyren mewn cymwysterau TGAU a chadw'r dull modiwlaid mewn cymwysterau Safon Uwch yn parhau i gael eu cefnogi. Roedd cymwysterau Cymru'n cael eu hystyried yn dda gan sefydliadau addysg uwch yng Nghymru a'r rheini y tu allan i Gymru.
- 4.20 Mae Bagloriaeth Cymru yn hollti barn o hyd. Roedd rhai rhanddeiliaid yn gefnogol iawn, gan gydnabod buddion sgiliau ehangach a geir ar Lefel 2 a Lefel 3. Fodd bynnag, roedd eraill yn cwestiynu ei gwerth mewn cwricwlwm sy'n culhau. Roedd safbwyntiau gwahanol iawn ynghylch sut ystyrir Bagloriaeth Cymru a'r SCC Uwch mewn sefydliadau addysg uwch a pholisïau amlwg o wahanol mewn sefydliadau addysg uwch ynghylch ystyried ceisiadau oddi wrth ddarpar fyfyrwyr â Bagloriaeth Cymru.
- 4.21 Roedd mater adnoddau'n canolbwyntio ar gael adnoddau addysgu a deunyddiau wedi'u cyfieithu ar gael mewn pryd. Cydnabuwyd bod cydweithio ar lefel ranbarthol wedi helpu ond bod teimlad cyffredinol o hyd fod myfyrwyr cyfrwng Cymraeg o dan anfantais ers symud at gymwysterau Cymru yn unig.
- 4.22 Y meysydd allweddol a godwyd gan randdeiliaid ynghylch cymwysterau galwedigaethol oedd adolygiadau sector (a werthfawrogwyd ond y credwyd eu bod yn araf), datblygiad a gwerth cymwysterau galwedigaethol (gan gynnwys cydraddoldeb bri â chymwysterau cyffredinol), a rhai safbwyntiau polisi (gan gynnwys gwerth yn y system perfformiad ysgol).
- 4.23 Roedd cefnogaeth gyffredinol yn parhau i fframweithiau prentisiaeth Cymru, yn enwedig o'u cyferbynnu â datblygiad safonau prentisiaeth yn Lloegr a'r ffaith nad yw rhai prentisiaethau newydd yn Lloegr yn cynnwys cymwysterau.
- 4.24 Amlygodd y rhanddeiliaid fod angen buddsoddi yn y gweithlu dysgu seiliedig ar waith i'w alluogi i gyflenwi'r cymwysterau galwedigaethol. Roeddent yn cydnabod bod mwy wedi'i roi ar waith yn ddiweddar, ond bod angen gwneud mwy.

Sylwadau Terfynol

- 4.25 Ar draws tair ton y gwaith maes ers 2015, cafwyd tystiolaeth glir o system gymwysterau sy'n arbennig Gymreig yn ennill ei phlwyf ac yn ennyn barn gadarnhaol gan randdeiliaid.
- 4.26 Ystyriwyd Cymwysterau Cymru yn barhaus yn gadarnhaol yn ystod tair ton y gwaith maes, er gwaethaf ychydig o feirniadaeth mewn meysydd penodol, fel y terfyn gradd a osodwyd ar gyfer iaith Saesneg yn 2018, a heriwyd gan rai rhanddeiliaid. Yn yr un modd, roedd CBAC yn cael ei barchu, gan gydnabod bod ganddo'r arbenigedd angenrheidiol i fodloni ei gyfarwyddyd, er bod pryderon yn parhau am ganlyniadau'r ffaith mai CBAC yw'r prif gyflenwr ar gyfer cymwysterau cyffredinol. Lleisiwyd y farn hon, mewn perthynas â swyddogaeth CBAC fel y prif gyflenwr, yn gyson ar draws tair ton ymchwil.
- 4.27 Mae rhai pynciau llosg yn parhau, a godwyd yn gyson yn ystod tair ton y gwaith maes ac sydd wedi hollti barn, fel Bagloriaeth Cymru.
- 4.28 Mae cyfathrebu a dealltwriaeth gyhoeddus o rôl gwahanol gyrff yn parhau'n flaenoriaeth barhaus i sefydliad Cymwysterau Cymru a CBAC. Roedd hyn yn gryfach yn nwy don gyntaf y gwaith maes, ac er bod cefnogaeth gref yn parhau ynghylch cyfathrebu, fe godwyd rhai beirniadaethau penodol yn y drydedd don hon o waith maes.
- 4.29 Er gwaethaf rhai gwahaniaethau barn penodol, ar y cyfan roedd cefnogaeth i'r amrywiaeth o gymwysterau a'r diwygiadau diweddar iddynt. Roedd cefnogaeth i'r cwricwlwm ysgol newydd ond hefyd ychydig o ofn am yr effaith ar ysgolion, athrawon ac, yn y pen draw, disgyblion.
- 4.30 Y meysydd blaenoriaeth i'w hystyried o hyn ymlaen yw:
- Dealltwriaeth y cyhoedd a'r rhanddeiliaid o'r system gymwysterau a rolau sefydliadau allweddol
 - Rheoli unrhyw newidiadau i gymwysterau o ganlyniad i'r cwricwlwm newydd i Gymru sydd ar y gweill
 - Strategaeth gyfathrebu, yn enwedig o ran CBAC ond gan gynnwys Cymwysterau Cymru
 - Rheoli newid yn well ar gyfer cyflwyno cymwysterau a ddatblygwyd o ganlyniad i adolygiadau sector
 - Anelu at gynyddu argaeledd adnoddau Cymraeg i gefnogi cymwysterau
- 4.31 Mae negeseuon polisi ehangach wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn, am fod ymchwil i hyder y cyhoedd yn y system gymwysterau wedi datgelu'n anochel faterion a oedd yn berthnasol i sefydliadau eraill yn y system honno, gan gynnwys Llywodraeth Cymru.